# Llyfrgelloedd Cymunedol a Llyfrgelloedd Ymddiriedolaethau Annibynnol yng Nghymru




**Ymchwil i natur bresennol ac arfaethedig y ddarpariaeth, Rhagfyr 2014, comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru**

**gan**
**D. Hywel E. Roberts**

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Crynodeb Gweithredol** | **tudalen 3** |
| **2.** | **Cefndir a Chyflwyniad** | **tudalen 5** |
| **3.** | **Ymddiriedolaethau Llyfrgell Annibynnol** | **tudalen 8** |
| **4.** | **Llyfrgelloedd Cymunedol** | **tudalen 16** |
| **5.** | **Sylwadau Terfynol** | **tudalen 39** |

# 1. Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r ymchwil hwn ar lyfrgelloedd cymunedol (sef llyfrgelloedd a reolir / gefnogir gan y gymuned) a llyfrgelloedd Ymddiriedolaethau annibynnol yng Nghymru wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddisgrifio:

   - newidiadau a datblygiadau sydd eisoes wedi digwydd yn y broses darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus cyn mis Rhagfyr 2014;
   - datblygiadau perthnasol eraill a oedd ar gam cynllunio datblygedig, neu a oedd ar fin digwydd, neu a fyddai'n cael eu rhoi ar waith yn y dyfodol agos.

2. Comisiynwyd yr ymchwil er mwyn cyflawni rhai o argymhellion yr adroddiad *Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru 2014*. Oherwydd bod pethau wedi datblygu mor gyflym ers cyhoeddi'r Adolygiad, ehangwyd nifer yr astudiaethau achos i chwech yn hytrach na chael tri fel yr awgrymwyd yn wreiddiol.

3. Casglwyd tystiolaeth, ar ffurf astudiaethau achos, ynghylch natur y datblygiadau hyn, a lle bo modd casglodd yr ymchwil dystiolaeth yn ymwneud â materion gweithredol a materion rheoli. Casglwyd hefyd dystiolaeth yn ymwneud â lefelau perfformiad o dan y trefniadau newydd hyn mewn meysydd darpariaeth allweddol neu graidd, o'i gymharu â'r sefyllfa cyn i'r trefniadau hynny gael eu rhoi ar waith.

4. Mae'r astudiaeth yn dod i'r casgliad ac yn argymell y canlynol:

   - mae'r trefniadau a sefydlwyd yng Nghymru i reoli llyfrgelloedd drwy Ymddiriedolaethau annibynnol, yn seiliedig ar gytundebau ffurfiol i reoli lefel gwasanaeth, yn sefydliadau addas i ddarparu gwasanaethau llyfrgell statudol ar ran yr awdurdod llyfrgell, yn bennaf oherwydd mai'r awdurdod llyfrgell sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd terfynol am y gwasanaeth ac am ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae rhai peryglon cynhenid yn nhrefniadau presennol ac arfaethedig Ymddiriedolaethau o ran sicrhau cyllidebau blynyddol digonol ac o ran mesurau i ddiogelu'r gwasanaethau llyfrgell petai Ymddiriedolaeth yn methu am ryw reswm;
   - o'r gwahanol fathau o fodelau llyfrgell gymunedol sydd wedi datblygu yng Nghymru yn ddiweddar, yr unig fodel sydd fel petai'n cynnig y cyfle gorau o ran cynaliadwyedd a hyfywedd, ac sydd â'r pwyslais priodol ar ansawdd gwasanaeth, yw'r model sydd â pherthynas waith agos a ffurfiol gyda gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol, sef Model C - llyfrgell gymunedol dan arweiniad awdurdod llyfrgell. Pan geir trefniant ffurfiol o'r fath, gall awdurdod llyfrgell gynnwys y gwasanaethau a gynigir gan y llyfrgelloedd cymunedol hyn yn rhan o'i ddarpariaeth statudol, ond byddai hynny'n llwyr yn ôl disgresiwn yr awdurdod llyfrgell.
   - os yw awdurdod llyfrgell yn penderfynu bod yn rhaid ad-drefnu ei ddarpariaeth llyfrgell, yna dylai ystyried ystod eang o opsiynau i ddarparu gwasanaeth. Yng

nghyd-destun llyfrgelloedd llai o faint yn unig y bydd llyfrgelloedd cymunedol yn debygol o lwyddo, a dylid ystyried bod y model llyfrgell gymunedol yn ddewis afrealistig fel dull i ddarparu gwasanaeth llyfrgell o safon mewn mannau gwasanaeth mwy o faint.

## 2. Cefndir a Chyflwyniad

5. Yn ystod y trafodaethau a arweiniodd at gyhoeddi *Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru 2014*, ystyriodd aelodau'r Panel Arbenigol ddatblygiad llyfrgelloedd cymunedol yng Nghymru a thu hwnt, yn ogystal â datblygiad rôl Ymddiriedolaethau Elusennol annibynnol fel asiantaethau neu sefydliadau i fod yn gyfrifol am reoli rhai gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Cytunodd y Panel i argymell y canlynol:

> *"... Dylid gweithredu yn syth i gasglu tystiolaeth ac asesu effaith newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth gwasanaethau llyfrgelloedd ar y cymunedau yr effeithir arnynt yng nghyd-destun gofynion statudol ... er mwyn goleuo'r penderfyniadau y bydd awdurdodau lleol eraill yn eu gwneud yn y dyfodol."* (*Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus 2014:* Argymhelliad IV)

6. Yna comisiynodd Llywodraeth Cymru (trwy Is-adran CyMAL) yr ymchwil hwn yn niwedd hydref 2014, ar ôl yn gyntaf gael cytundeb a chydweithrediad yr awdurdodau a grybwyllwyd yn yr argymhelliad, sef awdurdodau y gwyddys eu bod wrthi'n ymwneud â'r materion hyn. Oherwydd i ddatblygiadau cysylltiedig a newidiadau posibl yn y sector llyfrgelloedd cyhoeddus ddigwydd mor gyflym ym misoedd olaf 2014, penderfynwyd ymestyn yr astudiaeth i bedwar awdurdod llyfrgell arall yng Nghymru (gyda'u caniatâd). Estynnwyd yr astudiaeth er mwyn inni gael dealltwriaeth gyfredol ac ehangach am ddatblygiadau sy'n digwydd nawr a rhai sydd ar y gweill, ynghyd â deall materion cysylltiedig.

7. Mae'r ymchwil hwn ar lyfrgelloedd cymunedol a llyfrgelloedd Ymddiriedolaethau annibynnol yng Nghymru wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddisgrifio:

- newidiadau a datblygiadau sydd eisoes wedi digwydd yn y broses darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus cyn mis Rhagfyr 2014;
- datblygiadau perthnasol eraill a oedd ar gam cynllunio datblygedig, neu a oedd ar fin digwydd, neu a fyddai'n cael eu rhoi ar waith yn y dyfodol agos.

8. Yn ogystal, casglwyd tystiolaeth ar ffurf astudiaethau achos ynghylch natur y datblygiadau hyn, a lle bo modd, casglwyd tystiolaeth hefyd yn ymwneud â materion gweithredol a materion rheoli. Casglwyd hefyd dystiolaeth yn ymwneud â lefelau perfformiad o dan y trefniadau newydd hyn mewn meysydd darpariaeth allweddol neu graidd, o'i gymharu â'r sefyllfa cyn i'r trefniadau hynny gael eu rhoi ar waith.

9. Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad parod ac adeiladol yr awdurdodau llyfrgell yng Nghymru yn ogystal â chynrychiolwyr yr Ymddiriedolaethau annibynnol a'r cyrff cymunedol sydd nawr yn ymwneud â datblygu gwasanaethau llyfrgell. Er parch at y sefydliadau a'r unigolyn a gyfrannodd, nid yw'r adroddiad yn eu henwi, ac mae'r pwyslais drwyddo draw ar ddull astudiaethau achos/cyffredinol.

10. Mae'r adroddiad ymchwil a gyflwynir yma hefyd yn cyfeirio at Argymhelliad penodol arall yn yr Adolygiad Arbenigol, sef:

> *"… ni ddylid ystyried llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned fel rhan o'r ddarpariaeth llyfrgell statudol ar hyn o bryd, yn amodol ar ganfyddiadau'r ymchwil..." (Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus 2014: Argymhelliad VIII)*

11. Mae'r ymchwil hwn yn gwneud pob ymdrech i fynd i'r afael â'r mater penodol hwnnw, ond mae'n wir yn gwestiwn dyrys. Ceisia'r ymchwil gynnig sylwadau a all fod o gymorth i Lywodraeth Cymru wrth iddi benderfynu a chyhoeddi canllawiau ynghylch a ddylid ac a ellir ystyried llyfrgelloedd na reolir gan awdurdod llyfrgell yn rhan o ddarpariaeth statudol, ac os gellir ar ba sail y gwneir hynny, ac os na ddylid, unwaith eto ar ba sail. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn dwyn sylw at ystyriaethau interim penodol yn ymwneud â'r amseru mewn rhai awdurdodau o ran y trefniadau trosiannol a throsglwyddo cyfrifoldebau. Mae'r broses ymchwil hefyd wedi canfod na ellir gohirio'r penderfyniad a llunio canllawiau addas am lawer hwy - mae awdurdodau llyfrgell a'u darpar bartneriaid yn awr yn awyddus i gael penderfyniad brys a therfynol. Mae'n anochel y bydd cwtogi a newidiadau sylweddol yn digwydd yn y dyfodol agos yng Nghymru i natur darparu llyfrgelloedd cyhoeddus, ac yn y rheolaeth arnynt.

12. Casglwyd y gwahanol fathau o dystiolaeth a barn a amlygir yn yr adroddiad hwn drwy'r dulliau canlynol:

    - ymweliadau ag awdurdodau llyfrgell dethol, a chwrdd â chynrychiolwyr o'r sefydliadau newydd a oedd yn cymryd cyfrifoldeb am rai gwasanaethau llyfrgell;
    - cyfeirio at ddogfennau allweddol, gan gynnwys cytundebau cyfreithiol a chytundebau lefel gwasanaeth y mae awdurdodau llyfrgell a'u sefydliadau partner wedi'u rhannu gyda'r ymchwilydd ar delerau ac amodau penodol;
    - cyfathrebu drwy e-bost a thros y ffôn gydag arweinwyr a chynrychiolwyr grwpiau cymunedol sydd wedi sefydlu llyfrgelloedd cymunedol neu sydd ar fin gwneud hynny, a chyfeirio at ddogfennau yn ymwneud â llyfrgelloedd cymunedol yng Nghymru sydd eisoes yn y parth cyhoeddus.

13. Cydnabyddir eu cydweithrediad ac fe'i gwerthfawrogir yn fawr.

14. Ni all yr ymchwil hwn honni i fod yn ddim byd heblaw disgrifiad a dadansoddiad sy'n rhoi cipolwg o'r sefyllfa fel yr oedd ym mis Rhagfyr 2014, gyda'r sylwadau yn seiliedig ar dystiolaeth gyfyngedig yn hytrach na thystiolaeth gyffredinol gynhwysfawr. Cofier fod y dystiolaeth gyfyngedig yn ymwneud â gwaith a pherfformiad llyfrgelloedd cymunedol a llyfrgelloedd Ymddiriedolaeth sydd ond wedi bod mewn bodolaeth ers byr o dro neu sydd yn dal i fod yn y cyfnod pontio neu yn y cyfnod dechrau gweithredu. Dywedodd y Panel Arbenigol y dylid cynnal ymchwil pellach i'r materion hyn ar ôl rhyw 12 mis (*Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus 2014*: Argymhelliad IV), a byddai

hynny’n sicr yn briodol o dan yr amgylchiadau

## 3. Ymddiriedolaethau Annibynnol ar gyfer awdurdod cyfan

15. Hyd yma, mae dau awdurdod yng Nghymru eisoes wedi penderfynu rhoi eu darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus statudol mewn trefniant Ymddiriedolaeth elusennol. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod awdurdodau eraill wrthi'n ystyried yr opsiwn hwn, a thrydydd awdurdod i fod i ddechrau gweithredu tua mis Ebrill 2015. Yn ogystal, mae trafodaethau cychwynnol anffurfiol yn cael eu cynnal ynghylch y cysyniad o ffurfio consortiwm o Ymddiriedolaethau llyfrgell yng Nghymru, gydag un awdurdod yn cynnig cymryd yr awenau mewn unrhyw drefniant o'r fath. At ddibenion y gwaith ymchwil hwn, mae dwy o'r Ymddiriedolaethau wedi'u cynnwys.

**Astudiaethau achos**

**Llywodraethu**

16. Dim ond un Ymddiriedolaeth sy'n bodoli ac yn weithredol ar adeg yr ymchwil hwn. Fe'i sefydlwyd ym mis Hydref 2014, a'i phrif genhadaeth oedd gwella ansawdd bywyd y gymuned. Mae'n cynnwys cyfres o wasanaethau a oedd yn arfer cael eu cynnig a'u gweinyddu gan yr awdurdod lleol ei hun, sef llyfrgelloedd cyhoeddus (uned fusnes sy'n cynnwys gwasanaethau treftadaeth), addysg gymunedol, cyfleusterau a gwasanaethau hamdden, a'r celfyddydau. Darparu llyfrgelloedd cyhoeddus yw'r unig ddyletswydd statudol sydd ym mhortffolio presennol y gwasanaethau a reolir gan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael statws elusen; mae ganddi Fwrdd Ymddiriedolwyr yn ogystal â chytundeb partneriaeth ffurfiol gyda'r awdurdod lleol ar ffurf cytundeb lefel gwasanaeth. Mae'r awdurdod yn talu ffi rheoli flynyddol i'r Ymddiriedolaeth am ddarparu'r gwasanaethau. Yn yr Ymddiriedolaeth ceir Rheolwr Gyfarwyddwr, Pennaeth Gweithrediadau a phennaeth gweithredol penodedig i bob uned busnes strategol. Bydd arbenigedd a chapasiti ychwanegol yn cael eu hychwanegu'n fuan at staff gweithredol yr Ymddiriedolaeth ym meysydd marchnata a rheoli cyllid.

17. Mae ail awdurdod llyfrgell yng Nghymru wedi penderfynu rhoi ei wasanaeth llyfrgell i Ymddiriedolaeth elusennol ym mis Ebrill 2015. Bydd yr Ymddiriedolaeth hamdden a diwylliant yn cynnwys nifer o wasanaethau ynghyd ag asedau ffisegol, diwylliannol a threftadaeth, gan gynnwys parc cyhoeddus, safle diwylliannol hanesyddol bwysig, safle treftadaeth ddiwydiannol o bwys hanesyddol, pedair canolfan hamdden, amgueddfa a mannau gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus. Rheolwr Cleientiaid yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am yr Ymddiriedolaeth a'i pherfformiad, a hynny drwy'r prif gytundeb lefel gwasanaeth. Bydd gan yr Ymddiriedolaeth Fwrdd Ymddiriedolwyr, Prif Weithredwr a rheolwr (neu reolwyr) ar gyfer pob uned, yn dibynnu ar faint yr uned. Bydd gan y gwasanaeth llyfrgell reolwr penodedig ar gyfer yr uned gwasanaethau llyfrgell.

**Cyllid**

18. Bydd y ddwy Ymddiriedolaeth yn derbyn cyllid gan yr awdurdod lleol i ddarparu

gwasanaethau llyfrgell, ond mae'r modelau cyllido yn wahanol.

19. Mae cyllideb gychwynnol un Ymddiriedolaeth yn seiliedig ar gyfanswm y cyllidebau a ddyrannwyd gan yr awdurdod lleol i bob un o'r meysydd gwasanaeth a fydd bellach yn rhan o'r Ymddiriedolaeth o fis Ebrill 2014, ond yn achos y gwasanaeth llyfrgell, bu peth cwtogi yn y gwariant (o gymharu â 2013-14) gan arwain at golli staff (4 FTE) cyn ffurfio'r Ymddiriedolaeth. Mae'r awdurdod yn parhau i gyflenwi rhywfaint o gymorth a gwasanaethau atodol megis y gyflogres a TGCh am ffi y cytunwyd arni, er y cyflogir staff yr Ymddiriedolaeth erbyn hyn gan yr Ymddiriedolaeth ar ôl mynd trwy broses TUPE. Caiff staff eu cyflogi ar yr un graddfeydd cyflog â threfniadau blaenorol ac maent wedi'u diogelu am gyfnod o ddwy flynedd.

20. Dyma brif nodweddion y trefniadau ariannol:

- bydd y tâl am reoli yn gostwng 2.6% yn 15/16, 7.1% yn 16/17 a 2.8% yn 17/18 a 2.9% yn 18/19. Bydd y gostyngiad yma yn cael ei drafod a'i gadarnhau'n flynyddol ac yn gysylltiedig â setliad ariannol Llywodraeth Cymru i'r awdurdod ym mhob un o'r pum mlynedd. Mae eisoes yn hysbys fod angen gostyngiad pellach yng ngwariant yr uned fusnes yn 15/16;
- mae'r holl adnoddau ariannol a geir drwy'r ffi rheoli yn cael eu cyfuno ac nid oes unrhyw ddyraniad penodol i unrhyw uned fusnes nac unrhyw glustnodi adnoddau at ddibenion penodol;
- rhoddir cyfrif am weithgareddau pob uned fusnes yn flynyddol ar sail elw a cholled, a bydd disgwyl i bob uned gynhyrchu incwm ym mhob blwyddyn, yn ogystal ag arwain ar swyddogaethau sy'n ymwneud â datblygiad gwahanol agweddau ar yr Ymddiriedolaeth. Derbynnir y bydd hyn yn her fawr i'r gwasanaeth llyfrgell, gan mai dyma'r unig un o unedau busnes yr Ymddiriedolaeth nad yw wedi gorfod ystyried mabwysiadu dulliau masnachol i'w gweithgareddau yn y gorffennol;
- cafwyd peth arbedion ariannol sylweddol eisoes gan nad yw cyfleusterau Ymddiriedolaethau yn talu Trethi Annomestig, ac mae taliadau TAW ar incwm a gynhyrchir hefyd wedi'u heithrio, er bod Ymddiriedolaethau yn talu TAW ar wariant.

21. Rhagwelir y bydd pob uned yn yr Ymddiriedolaeth yn hyrwyddo llwyddiant a buddiannau cyffredinol yr Ymddiriedolaeth, a bydd pob cyfleuster a lleoliad yn hyrwyddo ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i waith unedau eraill yr Ymddiriedolaeth ac yn gweithredu fel canolfannau aelodaeth, recriwtio ac atgyfeirio yn hynny o beth. Yn ogystal â bod yn atebol o dan y dull cyfrifo elw a cholled a ddefnyddir, bydd pob uned fusnes strategol hefyd yn cael ei hasesu yn flynyddol ar ei chyfraniad at ganlyniadau ac effaith gymdeithasol gwaith yr Ymddiriedolaeth.

22. Bydd yr ail Ymddiriedolaeth hefyd yn cael ffi rheoli am gyflenwi gweithrediadau a gwasanaethau ym mhob uned, yn seiliedig ar y gyllideb wirioneddol a roddodd yr awdurdod lleol yn 2014-15.

23. Bydd pob uned yn yr Ymddiriedolaeth hon yn gweithredu ar gytundeb lefel gwasanaeth a bydd disgwyl iddynt berfformio ar lefelau uwch a darparu gwasanaethau o ansawdd uwch. Bydd yr adeiladau a'r cyfleusterau a ddefnyddir gan wasanaethau'r Ymddiriedolaeth yn cael eu prydlesu oddi wrth yr awdurdod lleol am gyfnod o 20 mlynedd, ond byddant yn aros ym mherchnogaeth yr awdurdod. Gellid ychwanegu agweddau eraill ar y gwasanaeth at waith yr Ymddiriedolaeth maes o law, ac maent wrthi'n ystyried trosglwyddo'r cyfrifoldeb rheoli am asedau megis meysydd chwarae o bob math.

24. Dylid nodi, serch hynny:

- bod y gwasanaeth llyfrgell eisoes wedi ymgorffori gostyngiadau sylweddol i'w gyllideb yn ystod 2014-15, o'i gymharu â'i ddyraniadau cyllideb yn 2013-14, ac mae wedi colli 5 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn. Rhagwelir y bydd gostyngiadau pellach yn y gwasanaeth llyfrgell yn angenrheidiol ar gyfer 2015-16 pan fydd setliad ariannol yr awdurdod gan Lywodraeth Cymru yn hysbys ac wedi'i ddyrannu;
- oherwydd hyn mae rheolwr y gwasanaeth llyfrgell yn dal yn ystyried opsiynau eraill o ran rheolaeth y dyfodol. Mae'n ymchwilio i weld pa mor briodol ac a fyddai hi'n werth bod yn aelod posib o gorff/consortiwm Ymddiriedolaethau llyfrgell ehangach ar y cyd â gwasanaethau llyfrgell eraill yng Nghymru, ond byddai'n rhaid cael cytundeb yr awdurdod i hyn. Mae'n bosibl yr ystyrid y byddai trefniant o'r fath yn peryglu cynigion Ymddiriedolaeth yr awdurdod ei hun a gallai olygu bod ei Ymddiriedolaeth yn llai hyfyw.

25. Rhagwelir y byddai rhai gwasanaethau ystafell gefn megis cymorth TGCh a chyflogau ac Adnoddau Dynol yn dal i gael eu darparu gan yr awdurdod ar lefel gwasanaeth ac ar sail ariannol y byddai'n rhaid cytuno arnynt a'u hadolygu'n rheolaidd gyda'r Ymddiriedolaeth. Mae'r holl drefniadau ariannol wedi'u gwarantu yn y lle cyntaf am gyfnod o bum mlynedd, ond disgwylir y bydd y ffi rheoli y mae'r awdurdod yn ei thalu i'r Ymddiriedolaeth am ei gwasanaethau yn gostwng tua 2% bob blwyddyn ym mhob un o'r pum mlynedd.

26. Fel pob uned arall yn yr Ymddiriedolaeth, bydd disgwyl i'r gwasanaeth llyfrgell roi cyfrif yn flynyddol am ei weithgarwch ar sail elw a cholled, er mwyn asesu ei effaith a'i gyfraniad at nodau ac amcanion yr Ymddiriedolaeth bob blwyddyn, ac i gyfrannu at hyrwyddo gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ym mhob agwedd. Bydd y cyllidebau presennol ar gael i'r rheolwyr unigol, ond yr Ymddiriedolaeth fydd â'r cyfrifoldeb dros rannu'r gyllideb yn y pen draw. Gallai'r gwasanaeth llyfrgell gael rhan o unrhyw wargedion ariannol a grëwyd gan yr Ymddiriedolaeth mewn unrhyw flwyddyn benodol, gan elwa o drefniant o'r fath. Disgwylir y bydd y gwasanaeth llyfrgell a'i staff yn trawsnewid dulliau gweithio yn ôl yr angen.

27. Mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi nodi arbedion sylweddol mewn gwariant refeniw yn y

dyfodol - mae'n amcangyfrif y bydd yn arbed tua £320,000 oherwydd na fydd yn rhaid iddo dalu ardrethi annomestig ar ei safleoedd, a gellid arbed £22,000 arall o newid trefniadau ar gyfer taliadau TAW ar incwm. Mae hefyd yn rhagweld y bydd yn gallu manteisio drwy ddenu cyllid ychwanegol o ffynonellau newydd ac ehangach yn sgil ei statws elusennol. Fodd bynnag, tynnwyd sylw hefyd, a'i gyfaddef yn rhwydd, fod risg mawr o fabwysiadu model Ymddiriedolaeth ar gyfer darparu gwasanaethau oherwydd nad oes sefyllfa wrth gefn petai'r Ymddiriedolaeth yn methu yn ariannol. Wedi dweud hynny, gellid tynnu elfennau statudol y ddarpariaeth oddi ar yr Ymddiriedolaeth os ystyrir ei bod yn fregus ar unrhyw adeg yn ystod y gweithdrefnau monitro.

28. Mae'r ddwy Ymddiriedolaeth wedi tynnu sylw at y cyfleoedd i gael cyllid ychwanegol o ffynonellau, megis ymddiriedolaethau elusennol, nad ydynt ar gael iddynt fel rhan o'r awdurdod lleol.

**Darpariaeth Statudol**

29. Er bod y ddwy Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am gyflenwi a rheoli'r gwasanaeth llyfrgell o ddydd i ddydd, bydd yr awdurdod lleol ei hun yn parhau i fod yn atebol i Lywodraeth Cymru am natur ac ansawdd y ddarpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus. O'r herwydd, yr Ymddiriedolaeth fydd yn llenwi'r Ffurflen Datganiad Blynyddol sy'n ofynnol o dan fframweithiau asesu a mesur ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus, er y caiff ei chyflwyno drwy'r awdurdod lleol. Felly ymddengys bod y trefniadau a fabwysiadwyd yn y cyd-destun hwnnw yn parhau i fod yn gwbl briodol ac yn dderbyniol yng nghyd-destun fframweithiau asesu Llywodraeth Cymru.

30. Drwy'r broses honno dylai Llywodraeth Cymru fedru cael digon o dystiolaeth ynghylch pa mor effeithlon ac effeithiol yw darparu llyfrgelloedd cyhoeddus drwy'r model penodol hwn, a dylai fedru cymryd camau priodol petai'r broses asesu yn datgelu sefyllfa anfoddhaol.

**Safonau Gwasanaeth**

31. Mewn un Ymddiriedolaeth, bydd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru y Llywodraeth yn sail i'r lefel perfformiad gwasanaeth a ddisgwylir gan yr uned fusnes gwasanaeth llyfrgell. Mae'r awdurdod hefyd yn cadw'r hawl i dynnu swyddogaethau a chyfrifoldebau oddi ar yr Ymddiriedolaeth os gwelir bod hynny'n fanteisiol neu'n angenrheidiol.

**Adolygu Risgiau**

32. Mae cael Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn sail i berfformiad gofynnol yr Ymddiriedolaeth yn lleihau'r risg wrth ddarparu gwasanaeth 'cynhwysfawr' i'r cyhoedd o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.

33. Mae gweithdrefnau sydd ar waith yn y ddwy Ymddiriedolaeth yn dangos bod y risgiau rhag cwblhau ffurflenni datganiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru wedi'u lliniaru'n llawn.

34. Mae'r awdurdodau lleol wedi cadw'r hawl i dynnu swyddogaethau a gwasanaethau oddi ar yr Ymddiriedolaethau os na fydd y trefniadau a'r perfformiadau yn ddigon boddhaol.

35. Ymddengys bod rhai peryglon anochel, a gwendidau efallai, ym modelau busnes yr Ymddiriedolaethau sydd angen craffu pellach arnynt:

- Mae'r newidiadau yn y lefel cyllido a ragwelir ar gyfer y ddwy Ymddiriedolaeth yn y dyfodol yn wahanol. Mae angen i'r ddwy Ymddiriedolaeth arbed arian yn flynyddol ond mae arbedion un Ymddiriedolaeth yn gyson fwy bob blwyddyn ac yn 5% yn fwy mewn un flwyddyn.
- Petai Ymddiriedolaeth gyfan yn mynd yn anhyfyw neu'n methu yn ariannol, ni roddwyd unrhyw awgrym beth fyddai'n digwydd i elfennau'r ddarpariaeth statudol yn yr Ymddiriedolaeth. Rhag ofn i'r amgylchiadau hynny godi, mae'n rhaid o bosibl cael rhyw fath o sicrwydd gan yr awdurdod y byddai'r gwasanaeth llyfrgell statudol yn dychwelyd i fod o dan ei reolaeth uniongyrchol ef neu y gweithredir rhyw ddull darparu arall sy'n atebol i'r awdurdod. Pwysleisiai swyddogion yr Ymddiriedolaeth mewn trafodaethau pa mor bwysig, a pha mor angenrheidiol, fyddai cysondeb a pharhad o ran ariannu, o ran yr Ymddiriedolaeth ei hun yn ogystal â'r unedau busnes unigol o'i mewn.
- Mewn un Ymddiriedolaeth nid oes unrhyw arian wedi'i glustnodi yn benodol ar gyfer unrhyw beth ar hyn o bryd, a bydd yn rhaid i'r gwasanaeth llyfrgell gystadlu am ei gyllideb yn flynyddol yn erbyn yr unedau busnes eraill. Bydd gan rai o'r unedau eraill hyn ofynion gwariant cyfalaf mawr yn aml (e.e. bydd yn rhaid i'r cyfleusterau hamdden barhau i fod yn ddeniadol gyda'r offer diweddaraf a bydd yn rhaid i gyfleusterau addysgol barhau i fod yn gystadleuol), a bydd eraill, megis treftadaeth a'r celfyddydau, yn anochel angen cymorthdaliadau sylweddol.
- Yn y ddwy Ymddiriedolaeth mae'r buddsoddiad i foderneiddio adeiladau llyfrgelloedd drwy raglen grant cyfalaf Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol wedi bod yn fanteisiol oherwydd bydd yn lleihau'r gofynion cyfalaf yn y dyfodol i gynnal yr adeiladau. Yn y tymor byr felly efallai na fydd angen buddsoddiad sylweddol, ond pan fo llyfrgell wedi'i lleoli mewn hen adeilad, un rhestredig o bosibl, bydd angen buddsoddiad cyson i gynnal y cyfleusterau.
- Mewn un Ymddiriedolaeth, mae'r gyllideb gychwynnol ar gyfer yr uned fusnes llyfrgelloedd yn seiliedig ar y gyllideb a roddwyd gan yr awdurdod lleol yn 2013-14, gyda gostyngiadau ychwanegol ar ei ben yn ystod 2014-15. Nid oedd y lefelau buddsoddi hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i wella na datblygu ei berfformiadau mewn perthynas â Phedwerydd Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Yn ogystal, mae adroddiadau Llywodraeth Cymru i'r awdurdod dros nifer o flynyddoedd wedi tynnu sylw at fuddsoddi annigonol yn y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus dros gyfnod estynedig. Mae'n bosibl felly fod y gwasanaeth eisoes yn

cael cyllid annigonol ar adeg ei drosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth.

- Prin yw'r cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu incwm. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau llyfrgell gyhoeddus yn y gorffennol wedi cael cryn anhawster i gynhyrchu incwm o bwys. Yr unig opsiwn posibl fyddai symud i godi ffioedd am fwy o wasanaethau, ond byddai hyn yn groes i ddatganiad Llywodraeth Cymru, ac a ailddatganwyd yn ddiweddar mewn gwahanol adroddiadau, fod gan ddefnyddwyr hawliau sylfaenol a hawl i gael pethau am ddim. O gyflwyno taliadau amrywiol, byddai trigolion yr awdurdodau o dan anfantais sylweddol a gallent symud i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a gynigir gan awdurdodau cyfagos, gan amharu ar lefelau perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol.
- Mae angen craffu ar natur a chynnwys y cytundebau lefel gwasanaeth sy'n ymwneud â'r gwasanaethau llyfrgell. Nododd swyddogion yr Ymddiriedolaethau bod angen canllawiau a diffiniad manylach o ddarpariaeth statudol gan Lywodraeth Cymru er mwyn eu cynorthwyo yn y gwaith o ddiffinio a darparu gwasanaeth addas o fewn y trefniadau Ymddiriedolaeth newydd.
- Mae'r model busnes yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth llyfrgell fabwysiadu dulliau newydd a gwahanol o weithio a darparu gwasanaethau. Mae'r amserlen ar gyfer trawsnewid o'r fath i'w gweld yn fyr, ac mae rôl swyddog cyllid yr Ymddiriedolaeth a rheolwyr eraill wrth ddatblygu'r sgiliau hynny yn holl bwysig. Mae'r un mor bwysig o ran darganfod a chefnogi dulliau newydd ac ychwanegol i gynhyrchu incwm o amrywiaeth ehangach o adnoddau.
- Cymerodd hi'n hirach na'r disgwyl i'r ddwy Ymddiriedolaeth gael eu sefydlu'n ffurfiol.
- Mae angen egluro a chadarnhau beth fydd yn digwydd o ran cymryd rhan yn y gwahanol gonsortia cenedlaethol a rhanbarthol i geisio gwella a datblygu gwasanaethau llyfrgell.
- Mae ymateb cychwynnol staff mewn un Ymddiriedolaeth wedi bod yn ffafriol, a dywedwyd bod morâl staff o dan yr Ymddiriedolaeth yn uwch nag yn y blynyddoedd diwethaf o dan yr awdurdod lleol, er bod integreiddio arferion gwaith a synergeddau eto i'w nodi a'u gweithredu'n fanwl. Fodd bynnag, yn yr ail Ymddiriedolaeth nid oedd yr holl staff yn gallu uniaethu â manteision cael eu cyflogi gan Ymddiriedolaeth yn hytrach na'r awdurdod lleol.

**Cyfle**

36. Cafwyd disgwyliad rhesymol gan un Ymddiriedolaeth y gellid cyflawni'r synergeddau posibl yn y gwahanol agweddau ar waith yr Ymddiriedolaeth o fewn amser rhesymol, e.e. integreiddio staff mewn lleoliadau penodol, gwaith atgyfeirio a hyrwyddo i bob rhan o bortffolio gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth ym mhob safle a lleoliad.

***Argymhellion***

**I. Dechreuodd un o'r Ymddiriedolaethau weithredu 7 mis i mewn i flwyddyn ariannol 2014-15. Mae gweithdrefn Ffurflen Datganiad Blynyddol Llywodraeth Cymru mewn**

**perthynas â pherfformiadau yn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn mynnu data am berfformiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan. Felly, mae angen i Lywodraeth Cymru roi gwybod i'r Ymddiriedolaeth hon a'r awdurdod hwn ar y cyfle cyntaf a ydynt i gyflwyno data ai peidio ar gyfer y flwyddyn 2014-15 sy'n adlewyrchu perfformiadau cyfanredol cyn yr Ymddiriedolaeth a hefyd yn ystod yr Ymddiriedolaeth. Awgrymir bod y gwasanaeth yn ei hanfod yr un fath, ac y dylai'r data yn ymwneud â'r gwasanaeth llyfrgell gynnwys gwybodaeth o'r cyfnodau cyn yr Ymddiriedolaeth ac yn ystod yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, os bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno gwneud asesiad yn syth i gymharu perfformiadau ac effaith y trefniant Ymddiriedolaeth ar ddarpariaeth llyfrgell statudol, gellir dadgyfuno data yn y Ffurflen Datganiad Blynyddol, ond byddai hynny'n golygu gwaith ychwanegol i'r Ymddiriedolaeth, ac yn wir i'r Llywodraeth a'i haseswyr.**

**Yn dilyn asesu Ffurflen Datganiad Blynyddol 2014-15 ar gyfer Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn ystod haf 2015, dylai Llywodraeth Cymru ddilyn cyngor ei haseswyr ynghylch a yw lefel perfformiad y gwasanaeth llyfrgell dan reolaeth yr Ymddiriedolaeth yn foddhaol ai peidio. Os bernir ei fod yn llai na boddhaol, dylai'r Llywodraeth weithredu yn unol â'i phwerau a'r protocolau y cytunwyd arnynt.**

**II. Erbyn hyn bwriedir i'r ail Ymddiriedolaeth ddod i rym ym mis Ebrill 2015, gan fod y newid ffurfiol wedi'i ohirio o Hydref a Thachwedd 2014. Cyn y dyddiad hwnnw bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau neu gadarnhau:**

- **y bydd y gwasanaeth llyfrgell mewn gwirionedd yn rhan o'r Ymddiriedolaeth neu y caiff ei reoli mewn rhyw ffordd addas a chadarn arall;**
- **nad oes unrhyw newidiadau sylfaenol wedi'u gwneud i'r gwahanol fwriadau allweddol nac i'r ymrwymiadau ariannol arfaethedig;**
- **y bydd y cyllid a'r mecanweithiau adrodd sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yn parhau i arddel cydymffurfio â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17 i fod y lefel gwasanaeth a fwriedir ac yr ymrwymir iddo.**

**III. Os bydd ymholiadau ar y pryd yn datgelu sefyllfa foddhaol, ni ymddengys fod unrhyw reswm pam na ddylid ystyried y trefniadau Ymddiriedolaeth i fod yn fecanwaith addas i gyflawni rhwymedigaethau statudol yr awdurdod.**

**IV. Bydd Llywodraeth Cymru am dalu sylw arbennig i berfformiad y gwasanaeth llyfrgell yn 2015-16, ac i unrhyw dueddiadau mewn perfformiad a allai ddod i'r amlwg yn dilyn proses asesu Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Dylid medru gwneud hyn yn ddigonol o dan ofynion pumed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ac yn ôl ystyriaeth yr aseswyr ar ôl iddynt graffu ar Ffurflen Datganiad Blynyddol 2015-16. Os bernir bod perfformiadau yn llai na boddhaol, dylai'r Llywodraeth weithredu yn unol â'i phwerau a'i phrotocolau.**

## 4. Llyfrgelloedd Cymunedol

37. Hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2014 roedd gan bedwar awdurdod llyfrgell yng Nghymru 'lyfrgelloedd cymunedol' yn eu hardaloedd, sef:

- mannau blaenorol gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod sydd wedi cael eu trosglwyddo i amrywiaeth o drefniadau dan reolaeth ac arweiniad y gymuned, yn annibynnol ar unrhyw awdurdod llyfrgell. Nifer fach iawn o'r rhain sydd yna hyd yn hyn.
- mannau gwasanaeth llyfrgell sy'n seiliedig ar gydweithio rhwng yr awdurdod llyfrgell blaenorol a sefydliadau gwirfoddol. Gellid eu disgrifio neu eu categoreiddio'n fras fel llyfrgelloedd gwirfoddol wedi'u cefnogi gan yr awdurdod lleol, sef bod yr awdurdod lleol yn parhau i gefnogi mannau gwasanaeth llyfrgell mewn ffyrdd gwahanol, yn aml yn anffurfiol, ond mae wedi rhoi'r gorau i fod yn gyfan gwbl gyfrifol ac yn atebol amdanynt. Caiff y trefniadau eu disgrifio'n fanylach a'u gwerthuso yn yr astudiaethau achos sy'n dilyn.

***Astudiaethau achos***

38. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus mewn pedwar awdurdod wedi'u cynnwys yn rhan o'r gwaith ymchwil hwn, ac mae'n bwysig ystyried yr amgylchiadau a arweiniodd at adnabod llyfrgelloedd penodol i'w trosglwyddo i'r trefniadau hyn gan awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn 2013-14:

- penderfynodd un awdurdod fynd ar drywydd y llwybr hwn fel rhan o'i strategaeth a'i gynllun i ddatblygu'r gwasanaeth llyfrgell a'r rhain wedi'u llunio fwy na thair blynedd yn ôl. Ni ddylid felly o reidrwydd eu hystyried fel ymateb yr awdurdod i ystyriaethau brys diweddar ynghylch gostyngiadau mewn gwariant ar ddarpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus. Er hynny, mae ystyriaethau o ran arian ac adnoddau eraill yn amlwg wedi bod yn rhan o'r llunio gwreiddiol ar y strategaeth i ddatblygu neu wella'r gwasanaeth;
- penderfynodd un awdurdod gwtogi'n sylweddol ar nifer y mannau gwasanaeth yr oedd yn barod i'w hariannu a'u cefnogi yn dilyn gostyngiadau gwariant sylweddol a gyhoeddwyd yn hydref 2013. Penderfynwyd cau nifer fawr o fannau gwasanaeth a gwneud yn iawn am hyn i'r cymunedau yr effeithwyd arnynt drwy wella ei darpariaeth llyfrgell deithiol. Roedd ymateb y cymunedau yn gryf yn erbyn cynlluniau'r awdurdod, ac aeth grwpiau cymunedol ati i lansio her gyfreithiol i rai o'r cynigion penodol, ac mewn rhai cymunedau cynigwyd y posibilrwydd eu bod yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y llyfrgelloedd a oedd i'w cau;
- penderfynodd yr awdurdodau eraill hefyd dorri ar nifer y mannau gwasanaeth yr oeddynt yn barod i'w cefnogi yn y dyfodol yn sgil penderfyniadau i gwtogi'r gwariant ar ddarpariaeth llyfrgell fel rhan o raglenni gostwng gwariant ledled yr awdurdod am y flwyddyn 2014-15. Fodd bynnag, yn ystod proses o ymgynghori â'r cymunedau a gâi eu heffeithio gan y cynigion i gau llyfrgelloedd, cynigiodd yr

awdurdodau drosglwyddo'r cyfrifoldeb am y llyfrgelloedd hynny i bartneriaethau a sefydliadau cymunedol. Mae hefyd wedi addo cefnogi'r broses creu llyfrgelloedd cymunedol ac ymrwymo i barhau i gynnig gwahanol fathau o gefnogaeth i lyfrgelloedd cymunedol o fewn ei ffiniau.

39. O edrych yn ôl, gellir gweld bod nifer o'r llyfrgelloedd yr effeithir arnynt gan y prosesau a'r penderfyniadau strategol diweddar hyn wedi bod yn destun trafodaeth fanwl ers cryn amser. Yn wir, roedd bwriad i gau'r rhan fwyaf ohonynt, ond nid pob un, yn sgil gwahanol adolygiadau mewnol dros nifer o flynyddoedd. Roedd trafodaethau ac argymhellion yn ymwneud yn bennaf â pherfformiad gwirioneddol a pherfformiad posibl y llyfrgelloedd hyn - tueddent i fod ar agor am nifer fach o oriau bob wythnos; gostwng oedd nifer eu defnyddwyr; lleihau oedd cost effeithiolrwydd y gwasanaeth mewn nifer o fannau gwasanaeth; roedd llawer o'r llyfrgelloedd wedi'u lleoli mewn adeiladau nad oedd bellach yn addas at y diben; nid oedd ganddynt y cyfleusterau a'r adnoddau sylfaenol, a hynny'n cyfyngu ar ddatblygu'r gwasanaeth i'r fath raddau nad oeddynt bellach yn ymdebygu i wasanaeth modern. Mewn rhai achosion, roedd y prydlesi ar yr adeiladau yn nesáu at ddiwedd eu hoes ac nid oedd opsiwn i adnewyddu.

40. Yn ogystal, byddai dadansoddiad gwrthrychol yn awgrymu nad yw patrwm darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus wir wedi mynd drwy broses ailarfarnu neu resymoli radical a phriodol mewn sawl ardal ers ad-drefnu llywodraeth leol ym 1974 a 1996. Bryd hynny cafodd awdurdodau llyfrgell annibynnol eu cyfuno neu eu hailddosbarthu, gan felly greu sefyllfa lle roedd mannau gwasanaeth llyfrgell a oedd gynt dan reolaeth sawl awdurdod llyfrgell weithiau yn agos iawn at ei gilydd a'u dalgylchoedd yn gorgyffwrdd. Nid oedd rhai agweddau ar y ddarpariaeth, yn enwedig lleoliad mannau gwasanaeth sefydlog, wedi ymateb i newidiadau demograffig wrth iddynt ddigwydd o fewn cymunedau a rhyngddynt.

41. Derbynnir, fodd bynnag, nad yw darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yn fater sydd bob amser yn cael ei ystyried yn wrthrychol, oherwydd gall fod yn bwnc sensitif iawn ac yn wleidyddol anodd, fel y dengys profiad diweddar yng Nghymru. Roedd awdurdodau gan mwyaf yn amharod i resymoli darpariaeth yn y rhan fwyaf o achosion oherwydd natur sensitif y pwnc.

42. Rydym yn gwybod erbyn hyn hefyd fod rhagor o awdurdodau lleol yng Nghymru wrthi nawr yn ystyried y posibilrwydd o fabwysiadu trefniadau tebyg ar gyfer eu llyfrgelloedd eu hunain, a'u bod wedi dechrau ar broses ymgynghori â'r cyhoedd mewn rhai achosion. Mae'r ymgynghori hwn yn fwy cyffredinol mewn rhai awdurdodau, ond yn ymwneud â lleoliadau penodol mewn awdurdodau eraill. Fodd bynnag, awgryma'r dystiolaeth fod y rhan fwyaf o'r cynigion yn ymwneud â llyfrgelloedd a mannau gwasanaeth llai o faint - sef rhai sydd wedi'u diffinio i fod ar agor am 12 awr neu lai bob wythnos neu sydd wedi'u lleoli mewn adeiladau sydd yn fach iawn ac yn cyfyngu potensial y gwasanaeth, neu rai sy'n tan-berfformio a'r defnydd ohonynt yn lleihau. Mewn rhai awdurdodau, serch hynny, mae'r cynigion yn ymwneud â rhai o'r llyfrgelloedd

mwy o faint (a ddiffinnir yn aml fel rhai sydd ar agor am hyd at 30 awr yr wythnos). Nid yw'r cynigion hynny fel petaent wedi cymryd sylw o ganfyddiadau'r rhan fwyaf o ymchwil diweddar ar lyfrgelloedd cymunedol, sef ymchwil sy'n cadarnhau nad yw'r model cymunedol yn addas nac yn gynaliadwy i lyfrgelloedd sydd ag oriau agor hirach a'r rhai sy'n cael eu hystyried yn gyffredinol yn fannau gwasanaeth llyfrgell mwy o faint.

43. Mae rhai awdurdodau lleol eraill yn aros am farn Llywodraeth Cymru ynghylch sut i ddiffinio darpariaeth statudol ac am arweiniad ar gyfraniad llyfrgelloedd cymunedol, os o gwbl, i'r hyn y gellir ei ddiffinio yn ddarpariaeth statudol mewn amgylchiadau o'r fath. Mae awdurdodau lleol eisiau arweiniad ar frys ar y materion hyn er mwyn medru cyflymu trefniadau a rhoi trefniadau eraill ar waith erbyn Ebrill 2015.

44. Mae'r crynodeb isod wedi grwpio'r wybodaeth fel a ganlyn:

- **Model A - llyfrgelloedd wedi'u rhedeg gan y gymuned, yn annibynnol ar wasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol;**
- **Model B - llyfrgelloedd wedi'u rhedeg gan y gymuned sy'n elwa o gael adnoddau a chefnogaeth gref a pharhaus staff yr awdurdod lleol; a**
- **Model C - llyfrgelloedd wedi'u rhedeg gan y gymuned sy'n elwa o gael adnoddau, cyngor, hyfforddiant a staff cyflogedig ym mhob llyfrgell, yn uniongyrchol o'r awdurdod lleol**

**Model A - Llyfrgelloedd wedi'u rhedeg gan y gymuned, yn annibynnol ar wasanaeth llyfrgell yr awdurdod lleol**

45. Ym mis Mawrth 2014 penderfynodd un awdurdod gau 13 (50%) o'i fannau gwasanaeth llyfrgell oherwydd cwtogi mawr ar ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15. Ar y cyfan, roedd y penderfyniadau am fannau gwasanaeth unigol wedi ystyried eu cyflwr, eu perfformiad, eu lleoliad mewn perthynas â mannau gwasanaeth eraill cyfagos ynghyd â materion eraill, megis cytundeb prydles ar adeilad presennol y llyfrgell yn dod i ben a dim opsiwn adnewyddu ar gael. Roedd ymateb y gymuned yn feirniadol mewn sawl lleoliad ac mae penderfyniad yr awdurdod ar gyfer un lleoliad wedi bod yn destun Adolygiad Barnwrol. Fodd bynnag, yn yr achos hwnnw, cytunodd yr awdurdod i barhau â'r gwasanaeth yn y lleoliad penodol hwnnw hyd nes y ceid ymgynghoriad pellach ac mae hwnnw'n dal ymlaen. Serch hynny, ni roddwyd gorau'n llwyr i'r cynnig cychwynnol i gau'r llyfrgell fel man gwasanaeth llyfrgell statudol wedi'i staffio'n llawn oherwydd pwysau'r dyraniadau cyllidebol.

46. O'r holl adeiladau llyfrgell sydd wedi cau, mae llawer ers hynny wedi cael eu gwaredu neu'n cael eu defnyddio bellach at ddibenion eraill. Felly, nid oes posibilrwydd o gwbl y gall y llyfrgelloedd penodol hyn sydd wedi'u cau gael eu hailagor (ac eithrio dwy - gweler paragraff 49). Ceisiodd yr awdurdod wneud yn iawn i bob un o'r 13 cymuned a gâi eu heffeithio drwy ymestyn a gwella ei darpariaeth llyfrgell deithiol; cynigwyd cyfleoedd bob pythefnos yn yr ardaloedd hynny yn ogystal ag ymweliadau ychwanegol gyda'r nos yn

ystod yr wythnos ac ar ddydd Sadwrn i leoliadau penodol.

47. Fel y nodwyd uchod, os caiff llyfrgelloedd cymunedol eu sefydlu mewn dau o'r mannau gwasanaeth a gaewyd, mae'r awdurdod wedi awgrymu y byddai'n dileu'r gwasanaeth llyfrgell deithiol er mwyn peidio â thanseilio mentrau cymunedol trwy gystadlu am gwsmeriaid. Yn y ddwy lyfrgell hyn a arferai fod dan reolaeth yr awdurdod ond a allai ddatblygu i fod yn gyfleusterau a reolir gan y gymuned, cafodd y stoc bresennol ei gadael yno, ond symudwyd y ddarpariaeth TGCh. Roedd perchnogaeth a chyfrifoldeb am adeiladau blaenorol y llyfrgelloedd, pe baent i ddod yn llyfrgelloedd dan arweiniad y gymuned yn y dyfodol, yn dal yn destun trafod ar adeg yr ymchwil hwn.

48. Er ei bod yn fwy na thebyg yn rhy gynnar i asesu'n briodol ac yn bendant effaith cau llyfrgell ar berfformiad gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod, eto mae arwyddion cynnar yn awgrymu, er bod 50% o'r llyfrgelloedd sefydlog wedi cau, fod cyfanswm yr eitemau a fenthycwyd yn y flwyddyn ariannol gyfredol (2014-15) wedi gostwng llai na hynny, sef tua 25% yn ôl y cyfrifiadau diweddaraf. Mae'n bosibl y gellid priodoli peth o'r gostyngiad i newidiadau (cwtogi) yn yr oriau agor ac i'r lefelau staffio yn y llyfrgelloedd sefydlog hynny a ariennir gan yr awdurdod sy'n dal ar ôl. Mae'r awdurdod hefyd yn credu bod newid amlwg eisoes yn y defnydd ar lawer o lyfrgelloedd; pan geir cynnydd yn nifer yr eitemau a fenthycir a nifer yr ymwelwyr i'r llyfrgell ei hun, mae'r cynnydd hwn yn dueddol o ddigwydd mewn llyfrgelloedd sydd wedi eu lleoli yn y trefi mwy o faint y mae pobl yn ymweld â hwy am resymau eraill, megis i siopa. Awgryma hyn fod ymweliadau â llyfrgelloedd yn fwyfwy cysylltiedig â gweithgareddau eraill, ac efallai fod llai o bobl yn ymweld â'r llyfrgell yn unig.

49. Mae posibilrwydd cryf y bydd elfen o gyd-leoli cyfleusterau os bydd dau leoliad yn ailagor dan reolaeth gymunedol. Byddant naill ai'n ailagor yn bennaf fel llyfrgell sydd â rhai swyddogaethau cymunedol ychwanegol, neu fel canolfan gymunedol sydd â llyfrgell yn rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol, ond byddai'r ddau leoliad wedi'u cynnal a'u rheoli'n gyfan gwbl gan eu cymunedau. Serch hynny, mae wedi bod yn anodd gweld yn union pa gynnydd a wnaed yn achos un o'r cynlluniau hyn, a natur y cynnydd hwnnw, ond o ran y llall deallir bod Ymddiriedolaeth llyfrgell wedi cael ei sefydlu a bod llyfrgell dan reolaeth gymunedol bellach i agor ym mis Ionawr 2015 (union ddyddiad eto i'w benderfynu). Yn ôl gwybodaeth gan gynrychiolydd o grŵp yr Ymddiriedolaeth, bydd yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am adeilad y llyfrgell, gan eu bod wedi cael prydles 21 mlynedd ar sail cynllun busnes yr Ymddiriedolaeth. Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn gyfrifol am y stoc lyfrau ac adnoddau a gwasanaethau eraill, megis dodrefn sylfaenol, a'r rhain oll wedi'u gadael yno gan yr awdurdod llyfrgell pan gaewyd y man gwasanaeth. Cafodd adeilad y llyfrgell ei adnewyddu tua phedair blynedd yn ôl drwy gymorth Rhaglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol Llywodraeth Cymru, ac o'r herwydd mae'n fodern, yn ddeniadol ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth nawr yn wynebu'r dasg o ddarparu'r holl gyfleusterau a gwasanaethau TGCh a'r seilwaith cysylltiedig. Mae digon o wirfoddolwyr i ateb gofynion cynllun busnes yr Ymddiriedolaeth eisoes wedi cael eu recriwtio.

50. O ran pwrpas craidd yr ymchwil hwn, cadarnhawyd na fydd yr awdurdod yn cynnwys data perfformiad yn ymwneud â’r llyfrgelloedd cymunedol sydd o fewn ei ffiniau fel rhan o’i ddarpariaeth llyfrgell statudol, neu fel rhan o’i Ffurflen Datganiad Blynyddol o dan Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17. Cadarnhaodd yr un Ymddiriedolaeth llyfrgell a rannodd wybodaeth gyda’r astudiaeth y byddai llyfrgell yr Ymddiriedolaeth yn gwbl annibynnol ar yr awdurdod lleol.

***Argymhelliad***

**V. Dylai ymchwil yn y dyfodol geisio canfod:**

- **ai dyma fydd safbwynt yr awdurdod yn y dyfodol, ac**
- **a yw llyfrgell bresennol yr Ymddiriedolaeth (neu ei llyfrgelloedd o bosibl) am ddefnyddio safonau gwasanaeth ac ansawdd darpariaeth tebyg i’r rhai a nodwyd yn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17, neu unrhyw fframwaith y gallai Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi yn y dyfodol;**
- **a yw’r ail lyfrgell gymunedol y soniwyd ei bod wrthi’n cael ei hystyried ar adeg yr ymchwil hwn, wedi agor mewn gwirionedd.**

**Model B - Llyfrgelloedd wedi’u rhedeg gan y gymuned sy’n elwa o gael adnoddau a chefnogaeth parhaol staff yr awdurdod lleol**

51. O’r tri awdurdod lleol sydd yn gweithredu’r model hwn ar hyn o bryd, cafodd dau eu cynnwys yn rhan o’r ymchwil.

52. Cynhaliodd y ddau awdurdod adolygiad o’u darpariaeth llyfrgell a phenderfynu cau llyfrgelloedd oni bai bod ymrwymiad gan y cymunedau i reoli’r cyfleusterau. Yn gyffredinol roedd y rhain yn fannau gwasanaeth llyfrgell llai o faint. Gwnaed penderfyniadau ar y sail bod y llyfrgelloedd penodol hyn yn tanberfformio neu nad oeddynt bellach yn gost-effeithiol i’w gweithredu neu oherwydd bod eu hadeiladau yn achosi problemau mawr o ran addasrwydd, cydymffurfio â gofynion cydraddoldeb ac o ran lefel y buddsoddiad oedd ei angen i sicrhau eu bod mewn cyflwr defnyddiol. Mewn llawer o achosion roedd y llyfrgelloedd hyn wedi bod yn destun adolygiadau perfformiad ers cryn amser, ond ni weithredwyd argymhellion adolygiadau cynharach i ddileu gwasanaethau o lawer o’r lleoliadau hyn.

53. Er enghraifft, o dan gynllun darpariaeth llyfrgelloedd strategol un awdurdod, y bwriad oedd cau’r cyfleuster oherwydd pryderon am gyflwr adeilad y llyfrgell a’r ffaith ei fod yn cyfyngu’n sylweddol ar y gallu i ddarparu gwasanaeth llyfrgell modern. Yn ogystal â hyn, roedd yr awdurdod yn buddsoddi (gyda grant Rhaglen Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol Llywodraeth Cymru) i ehangu ac adnewyddu ei lyfrgell mewn tref gyfagos, sef tref sy’n ganolfan fasnachol, gymdeithasol ac addysgol naturiol ar gyfer ardal â dalgylch ehangach a oedd yn cynnwys y gymuned a oedd yn mynd i golli ei gwasanaeth llyfrgell. Y bwriad hefyd oedd cyd-leoli nifer o wasanaethau’r awdurdod lleol yn y lleoliad hwnnw.

Roedd disgwyl i drefniant o'r fath sicrhau nifer o fanteision a synergeddau megis bod yn gyffredinol yn fwy effeithlon o ran costau er mwyn mynd i'r afael â'r cwtogi ar y gyllideb, a manteision penodol, megis rhannu staff ac oriau agor hirach i'r gwasanaeth llyfrgell.

54. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, a gwrthwynebiad mawr yn lleol i gau'r llyfrgelloedd, penderfynodd nifer o gymunedau gymryd drosodd y gwaith o reoli eu llyfrgell leol, gyda gwasanaethau llyfrgell yr awdurdodau yn cynnig cymorth i'r grwpiau hyn i sefydlu llyfrgelloedd dan reolaeth y gymuned. Roedd y nifer a drosglwyddwyd i reolaeth y gymuned gan y ddau awdurdod yn amrywio o 1 i 9.

55. **Heb ymroddiad ac ymrwymiad y grwpiau cymunedol a oedd wedi gweithredu'n gyflym iawn ac yn llawn ysbryd cymunedol wrth wynebu dewisiadau anodd, nid oes amheuaeth y byddai'r llyfrgelloedd wedi cau. Roedd rheolwyr llyfrgelloedd y ddau awdurdod yn allweddol wrth roi cymorth i'r grwpiau cymunedol ddatblygu eu cynigion.**

56. Ar adeg yr ymchwil hwn, roeddynt oll yn dal yn weithredol, ond roedd yn dal angen cwblhau trefniadau penodol mewn nifer fach o achosion, megis creu statws Ymddiriedolaeth elusennol addas, lle bo angen. Ym mhob achos, roedd y cyfrifoldeb am y safle ac am staffio'r llyfrgell wedi'i drosglwyddo'n gyfan gwbl i'r sefydliadau neu grwpiau cymunedol. Mewn 9 achos, parhaodd y grwpiau cymunedol i ddarparu gwasanaethau llyfrgell yn yr un lleoliad â'r llyfrgell flaenorol, a chafodd un arall ei symud i ganolfan gymunedol fwy addas. Mae trefniadau ynghylch prydlesu'r adeiladau yn amrywio'n fawr, o gytundeb ffurfiol lle mae'r grwpiau cymunedol yn talu i'r awdurdod am ddefnyddio'r adeilad (gan gael cymorth grant yn ôl gan yr awdurdod lleol am union yr un swm), i'r brydles am adeilad y llyfrgell yn dychwelyd yn ôl i'r grŵp neu fudiad cymunedol lleol fel perchnogion gwreiddiol yr adeilad, gan fod yr awdurdod lleol wedi'i brydlesu ganddynt hwy yn flaenorol.

57. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, penderfynodd yr awdurdodau beidio ag ymestyn/gwella eu gwasanaethau llyfrgell deithiol i'r ardaloedd a wasanaethir gan y llyfrgelloedd cymunedol er mwyn peidio â chreu cystadleuaeth am gwsmeriaid, er y credir fod gan y gwasanaethau teithiol y capasiti i ehangu yno.

58. Mewn un achos, cynhaliodd yr awdurdod arolwg ar yr adeilad, cyn y trosglwyddo, gan adrodd ei fod wedi gwneud gwaith angenrheidiol ar yr adeilad hwnnw. Er hynny, dadleua'r grŵp cymunedol sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth llyfrgell cymunedol na wnaed digon o waith o flaenoriaeth uchel, a bod yr adeilad yn dal i ddioddef nifer o gyfyngiadau mawr a diffygion sylfaenol.

**Cytundebau**

59. Mae un awdurdod wedi datblygu cytundeb ffurfiol sy'n nodi'r telerau rhwng yr awdurdod llyfrgell a'r cyngor cymuned neu dref am ddarparu gwasanaeth a chyfleusterau llyfrgell

gyhoeddus i gael eu gweithredu gan wirfoddolwyr lleol wedi'u recriwtio a'u rheoli gan y corff lleol perthnasol. Fodd bynnag, mae'n dweud yn glir nad yw'n creu partneriaeth ffurfiol na chontract cyflogaeth rhwng y ddwy ochr. Mae'r awdurdod lleol o'i ochr ef yn cytuno i ganiatáu i'r cyngor tref weithredu o adeilad presennol y llyfrgell o dan drwydded ac am ffi benodol, ond nid yw'r trefniant yn denantiaeth fel y cyfryw. Mae'r awdurdod hefyd yn enwi un o'i swyddogion i fod y person sydd â chyfrifoldeb am gydlynu â'r llyfrgell, ac a fyddai, ar gais, yn rhoi cyngor a chymorth rhesymol i'r fenter, gan gynnwys arweiniad ar rwymedigaethau statudol y grŵp mewn perthynas ag adeilad y llyfrgell a'r gwasanaeth. Dyma fater pwysig tu hwnt o ran diddordeb craidd yr astudiaeth hon, ond nid yw'r ddogfen yn nodi mewn mwy o fanylder sut y mae'r rhwymedigaethau statudol hynny i gael eu dehongli neu eu mesur.

60. Mae'r cytundeb uchod hefyd yn cyfeirio at safonau ansawdd ychwanegol sy'n cynnwys:

- cael cytundeb ymlaen llaw ynghylch unrhyw newid a gynigir i'r gwasanaeth;
- gweithredu, rheoli a gweinyddu'r llyfrgell i safonau sy'n ofynnol yn rhesymol gan yr awdurdod;
- sicrhau defnydd cywir o'r System Rheoli Llyfrgelloedd (LMS);
- sicrhau o leiaf isafswm nifer o staff sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio lefelau'r LMS (sef dau wirfoddolwr bob tro mae'r llyfrgell ar agor);
- casglu a throsglwyddo arian yn gywir - caiff dirwyon a chost benthyca DVDs eu trosglwyddo i'r awdurdod; mae'r grŵp gwirfoddolwyr yn gallu cynhyrchu swm bach o incwm iddo'i hun drwy werthu llyfrau ail-law;
- sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel a bod atebolrwydd cyhoeddus a rhwymedigaethau yswiriant wedi'u cyflawni'n ddigonol;
- darparu manylion cyswllt yr holl wirfoddolwyr presennol a darpar wirfoddolwyr;
- adrodd i'r awdurdod yn chwarterol am gostau, data perfformiad, nifer cwsmeriaid ac adborth ganddynt, canlyniadau arolygon ac unrhyw ddata perthnasol arall;
- talu ardrethi annomestig (nid yw'r grŵp cymunedol wedi'i eithrio o'r taliadau hyn gan nad yw wedi cael statws elusennol eto);
- mynychu cyfarfodydd rheolaidd i adolygu'r ddarpariaeth gwasanaeth;
- rhoi mynediad i swyddogion yr awdurdod i fynd i adeilad y llyfrgell;
- bod yn gyfrifol am dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r gwasanaeth;
- talu fel y cytunwyd i'r awdurdod am ddefnyddio'r LMS, cymorth TGCh a chostau'r cyswllt â'r Rhyngrwyd.

61. Yn yr ail awdurdod, caiff y berthynas ei rheoli a'i chynnal yn unol â thempled neu fatrics ysgrifenedig o ymrwymiadau a chyfrifoldebau ar y ddwy ochr, sef yr hyn a ddisgrifir yn 'fanyleb gwasanaeth ar gyfer gweithredu llyfrgell gymunedol'. Caiff y fanyleb ei defnyddio fel sail i gyd-ddealltwriaeth yn hytrach na chontract neu gytundeb ffurfiol. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth bod cryn oblygiadau adnoddau, nawr ac yn y dyfodol, i'r awdurdod llyfrgell yn sgil natur y trefniadau cydweithio presennol petaent yn parhau. Mae'r costau hyn eto i'w mesur yn ffurfiol. Nododd holl ymatebwyr yr ymchwil hwn fod

dyfodol pob llyfrgell gymunedol yn hollol ddibynnol ar barhad y trefniant partneriaeth â'r awdurdod lleol.

62. Yn y ddau awdurdod mae unrhyw aelodau newydd sy'n cofrestru â'r llyfrgelloedd dan arweiniad gwirfoddolwyr yn cael cardiau aelodaeth yr awdurdod llyfrgell. Gallant ddefnyddio holl lyfrgelloedd eraill yr awdurdod a chael mynediad at wasanaethau megis y system gwneud cais ac archebu, ynghyd â mynediad at holl lyfrau ac adnoddau deunyddiau'r awdurdod llyfrgell. Mae'r brandio wedi aros yr un fath yn ei hanfod. Fodd bynnag, daethpwyd ar draws tystiolaeth fod un llyfrgell yn ôl y sôn ar fin lansio ei hymgyrch gyhoeddusrwydd ei hun yn gynnar yn 2015 a allai geisio ail-gydbwyso'r ffordd y mae'n cyflwyno ei hunaniaeth annibynnol ar yr un pryd â phwysleisio'r mynediad y mae'n ei ddarparu i'r adnoddau ehangach.

**Lefelau gwasanaeth**

63. Mae'r ddau awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i'r llyfrgelloedd cymunedol, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- y stoc lyfrau, dodrefn, ffitiadau a darpariaeth TGCh fel oedd yn bodoli cyn y trosglwyddo;
- mynediad i System Rheoli Llyfrgelloedd yr awdurdod (LMS), a thrwy hynny gadw cysylltiad clir rhwng llyfrgelloedd yr awdurdod a'r llyfrgelloedd cymunedol, er bod rhai grwpiau cymunedol wedi sôn am broblemau o ran dibynadwyedd wrth weithredu'r system;
- mynediad at holl ddaliadau adnoddau llyfrgell yr awdurdod o ran llyfrau a deunyddiau a chefnogaeth i'r gwasanaeth gwneud cais a chadw drwy LMS. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r grwpiau lleol yn dweud nad yw'r cynnig mor sylweddol ag a ragwelwyd yn wreiddiol, efallai oherwydd fod cronfa lyfrau'r awdurdod llyfrgell ei hun yn lleihau;
- mynediad i'r gwerthwyr gorau newydd a ffuglen boblogaidd arall sydd wedi'u prynu gan yr awdurdod. Mae'r holl stoc yn parhau i fod ym mherchnogaeth yr awdurdod llyfrgell;
- cyfnewid a chylchdroi casgliadau yn rheolaidd;
- aelodaeth gyffredin - mae defnyddwyr newydd sy'n cofrestru mewn llyfrgelloedd cymunedol yn cael yr un cerdyn aelodaeth ag o'r blaen a gallant ddefnyddio unrhyw un o lyfrgelloedd yr awdurdod;
- cymorth TGCh, a hyfforddiant i wirfoddolwyr ar sut i'w ddefnyddio, er bod hwn hefyd yn faes nad yw fel petai yn bodloni'r holl ddisgwyliadau gwreiddiol a'r lefelau cefnogaeth gwasanaeth a ragwelwyd;
- cymorth i unrhyw grwpiau darllen sy'n parhau i gwrdd mewn llyfrgelloedd a chyfleusterau cymunedol.

64. O'u hochr nhw, disgwylir i'r grwpiau cymunedol sy'n rheoli man gwasanaeth llyfrgell

gyhoeddus:

- fod â chyfansoddiad priodol fel Sefydliad Elusennol Corfforedig;
- ymrwymo eu hunain i reoli llyfrgell am flwyddyn yn y lle cyntaf, ond mae'r prydlesi ar adeiladau am gyfnod cychwynnol sy'n hirach mewn rhai achosion;
- gweithredu o safleoedd sydd â chyswllt cyfathrebu'r awdurdod;
- cynnal protocolau priodol i brosesu data a chadw ac anfon data am berfformiad y llyfrgell i'r awdurdod;
- hyfforddi gwirfoddolwyr ar egwyddorion diogelu, cydraddoldeb, iechyd a diogelwch, hawliau dynol, diogelu data a materion eraill, a sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi'n briodol i ddefnyddio LMS a gweithdrefnau rheoli stoc. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn cael cynnig y cyfle i fynychu hyfforddiant tebyg i un staff yr awdurdod. Disgwylir hefyd i staff gwirfoddol roi cymorth i ddarllenwyr a chyngor a chefnogaeth i ddefnyddwyr pryd bynnag y bo modd;
- cynnal a glanhau adeilad y llyfrgell;
- cadw oriau agor rheolaidd y cytunwyd arnynt;
- cadw'r holl gyfleusterau ac offer mewn cyflwr da;
- rheoli unrhyw roddion a dderbynnir;
- darparu yswiriant ac yswiriant atebolrwydd digonol ar gyfer ystod o gyfleusterau a gwasanaethau;
- gwneud gwaith marchnata a gweithgarwch brandio (er yr ymddengys nad oes fawr ddim wedi'i gyflawni o ran datblygu hunaniaethau annibynnol yn hyn o beth).

65. Yn galonogol mae digon o wirfoddolwyr wedi cael eu recriwtio yn y ddau awdurdod.

66. Mae Penaethiaid gwasanaeth llyfrgell y ddau awdurdod wedi ysgwyddo llawer o'r rolau mentora a chefnogaeth a arweiniodd at sefydlu'r llyfrgelloedd cymunedol, gan hwyluso cynnig gwasanaethau cefnogi proffesiynol, ynghyd â chydweithwyr perthnasol yn eu meysydd arbenigedd perthnasol.

**Oriau agor a'r defnydd**

67. Mewn un awdurdod roedd oriau agor llyfrgell gymunedol wedi cael eu cadw ar lefelau blaenorol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oes data addas ar ddefnydd ar gael.

68. Mae mwy o amrywiaeth yn yr awdurdod arall a astudiwyd. Mae'n arwyddocaol bod oriau agor y llyfrgelloedd dan reolaeth gymunedol wedi gostwng yn gyffredinol mewn llawer o achosion, hyd at 66% (o 18 awr yr wythnos i 6) mewn un achos, o'u cymharu ag oriau agor yr awdurdod cyn trosglwyddo. Mae tair wedi cadw'r 10 awr yr wythnos gwreiddiol. Mae cyfanswm oriau agor yr holl lyfrgelloedd hyn at ei gilydd wedi lleihau ers dod yn llyfrgelloedd cymunedol o 158.5 awr yr wythnos i 100.5 awr. Mae'r cwtogi wedi digwydd mewn ambell achos oherwydd prinder gwirfoddolwyr i fod ar gael ar gyfer rotas rheolaidd mewn nifer fach iawn o safleoedd a phroblemau gwirfoddoli tymhorol, ond yn

gyffredinol adroddir bod digon o staff gwirfoddol wedi cael eu recriwtio, a hynny'n ddigon rhwydd mewn sawl achos.

69. O ystyried y gostyngiad mewn oriau agor, roedd yn ddisgwyliadwy y byddai cyfanswm nifer yr eitemau a fenthycid yn gostwng o'i gymharu â'r cyfnod cyfatebol cyn i'r llyfrgelloedd ddod yn gyfleusterau wedi'u rheoli gan y gymuned. Mae'r gostyngiad yn arwyddocaol iawn serch hynny - y gostyngiad lleiaf mewn benthyciadau yw 55%, y mwyaf yw 83%, ac ar gyfartaledd y gostyngiad mewn benthyciadau ymhlith y llyfrgelloedd cymunedol hyn yw 56%.

70. Nid yw'r awdurdod eto yn gallu gweld gydag unrhyw sicrwydd a yw defnyddwyr wedi mudo o'r ardaloedd a wasanaethir gan lyfrgelloedd cymunedol i lyfrgelloedd canolog mwy o faint y mae'r awdurdod yn eu datblygu o dan ei gynllun datblygu strategol ei hun. Mae nifer yr eitemau a fenthycwyd yn y llyfrgelloedd hynny wedi aros yr un fath i raddau helaeth ers mis Ebrill 2014.

71. Tameidiog braidd yw'r data arall sydd ar gael yn ymwneud ag agweddau eraill ar wasanaethau a chyfleusterau, a'u defnydd gan y cyhoedd. Mae nifer yr ymwelwyr i rai o'r llyfrgelloedd cymunedol wedi gostwng mewn rhai achosion o tua 70%, ond mae'r defnydd ar gyfleusterau TGCh wedi aros ar lefelau tebyg iawn i'r rhai ym mlwyddyn olaf y llyfrgelloedd fel cyfleusterau awdurdod lleol; mae hyn yn arwyddocaol gan ei fod yn adlewyrchu'r gwerth a'r angen am ddarpariaeth TGCh yn y cymunedau hyn.

72. Mae'n rhaid i swyddogion un awdurdod hefyd roi adroddiad am gynnydd a pherfformiad y llyfrgelloedd cymunedol i'r awdurdod lleol. Mae hyn yn arwyddocaol gan ei fod yn dangos mai parhau y mae'r ymdeimlad o ofal a chefnogaeth i'r cymunedau hynny sydd wedi colli cyfleusterau llyfrgell wedi'u hariannu'n ffurfiol gan yr awdurdod. Ond mae hefyd yn dangos yr angen i fonitro sefyllfa lle ymddengys fod yr awdurdod llyfrgell yn parhau i ymrwymo ac ymwneud yn agos ac yn weithredol â'r gwasanaethau llyfrgell o fewn ei ffiniau er eu bod o dan arweiniad y gymuned. Yn wir, gellid awgrymu bod elfen gref o ddylanwad yr awdurdod a dylanwad gwleidyddol yn dal ar y ddarpariaeth llyfrgell trwy'r llyfrgelloedd cymunedol hyn. Hyd yma maent yn dal i gael eu brandio a'u harwyddo yn yr un modd ag yr oeddent cyn eu trosglwyddo i reolaeth y gymuned, er y dylai eu hannibyniaeth fod wedi cael ei bwysleisio yn y cyswllt hwn o'r cychwyn cyntaf. Serch hynny, ymddengys fod y dasg o gasglu, coladu a dilysu gwybodaeth ystadegol yn un anodd gan fod pob llyfrgell gymunedol fel petaent wedi mynd ati'n wahanol i ymdrin â'r tasgau hyn. Mae'n bosibl fod amharodrwydd ymhlith staff gwirfoddol i ddefnyddio'r system rheoli llyfrgelloedd yn llawn ac yn gyson yn cyfrannu at yr anawsterau yn y cyd-destun hwn.

**Sgiliau Gwirfoddolwyr**

73. Nododd ymatebwyr i'r ymchwil hwn yn y ddau awdurdod ei bod yn hollol angenrheidiol ychwanegu at y set sgiliau a gynigid gan y grŵp gwirfoddolwyr cychwynnol, yn enwedig

ym maes darpariaeth TGCh a meysydd gweithgarwch mwy arbenigol. Mewn rhai achosion nid oedd grwpiau cymunedol wedi sylweddoli bod gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus wedi dod yn fwy arbenigol a soffistigedig yn sgil dyfodiad technoleg.

**Rhannu lleoliad**

74. Mae'r rhan fwyaf o'r llyfrgelloedd cymunedol bellach yn gweithredu fel Ymddiriedolaethau elusennol neu maent wedi mynd i ddwylo cyrff sydd eisoes â'r statws annibynnol hwnnw oherwydd eu swyddogaethau cymunedol eraill. Yn achos llyfrgelloedd cymunedol o fewn un awdurdod gwelir yn glir fod pwyslais cyfartal yno ar barhau i ddarparu gwasanaeth llyfrgell a datblygu'r man gwasanaeth llyfrgell a'i adeilad fel canolbwynt neu ffocws cymunedol amlbwrpas ehangach. Yn ôl disgrifiad un ymatebydd i'r ymchwil mae'r llyfrgell gymunedol yn bennaf yn gyfleuster cymunedol i gynnal gweithgareddau nad oedd lle iddynt mewn unrhyw leoliad arall yn y gymuned.

**Manteision**

75. Mae manteision ariannol penodol i Ymddiriedolaethau, fel sy'n wir yn achos y llyfrgelloedd cymunedol yn yr astudiaethau achos eraill a ddisgrifir yn yr ymchwil hwn. Maent yn gallu mynd at gyfleoedd cyllido o ystod o ffynonellau nad ydynt fel arfer ar gael i awdurdodau lleol. Mae rhai o'r llyfrgelloedd cymunedol hyn eisoes wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau grantiau i ddatblygu a chefnogi eu cyfleusterau TGCh ac mae eraill wedi bod yn llwyddiannus yn eu ceisiadau am gymorth i wella eu hadeiladau. Serch hynny mae eisoes yn amlwg bod cael digon o gyllid refeniw a chyllid cyfalaf yn her sylweddol iawn.

76. Hyd yma, nodwyd bod cryfderau penodol yn y ddarpariaeth yn y ddau awdurdod:

- mae'r ddarpariaeth llyfrau craidd a chyflenwad rheolaidd o ddeunyddiau newydd a deunyddiau penodol mewn ymateb i geisiadau defnyddwyr yn cael eu hystyried yn foddhaol ar y cyfan gan ddarparwyr a defnyddwyr. Mae'r awdurdodau yn parhau i ddyrannu cyllid i anghenion y llyfrgelloedd cymunedol. Mae gwasanaethau gwneud cais ac adnewyddu benthyciadau, ynghyd ag ailgyflenwi a chylchdroi stoc, hefyd yn cael eu darparu;
- cafodd digon o wirfoddolwyr sydd ag ystod o sgiliau perthnasol eu recriwtio i fodloni'r nifer gofynnol a bennwyd. Ond mae'r angen i hyfforddi'r holl wirfoddolwyr i ddefnyddio'r LMS cyn bod mewn cysylltiad â'r cyhoedd wedi golygu cyfyngu ar y gweithlu, yn enwedig gan fod problemau technegol a gweithredol wedi codi gyda'r LMS yn eithaf aml;
- dywedodd un grŵp o wirfoddolwyr eu bod wedi llwyddo i gael gwahanol fathau o gymorth ymarferol ychwanegol ac mae'n hyderus y gall gael adnoddau angenrheidiol gan wahanol gyllidwyr a noddwyr. Mae'n amlwg fod y gefnogaeth gymunedol gref yn parhau;
- cred llawer o grwpiau eu bod yn gallu cefnogi defnyddwyr a darllenwyr gyda

chyngor ac arweiniad ar ddeunyddiau darllen, a hynny drwy dynnu ar y sgiliau sydd ganddynt rhyngddynt ac ar eu profiad a'u cefndir.

**Astudiaeth Achos - Datblygu Gwasanaeth**

Roedd yn galonogol clywed am ddyheadau llawer o'r grwpiau cymunedol hyn i ddatblygu'r ddarpariaeth llyfrgell.

Blaenoriaethau un grŵp yw gwella gwasanaethau, er eu bod ar yr un pryd yn cydnabod y cyfyngiadau a osodir arnynt, yn enwedig gan yr adeilad. Pan gaiff statws elusennol ei gadarnhau iddynt yn y dyfodol agos, mae'r grŵp yn rhagweld y bydd manteision ariannol penodol yn dilyn (esemptiad rhag talu ardrethi annomestig, rhai manteision TAW a chyfleoedd i ymgeisio am gyllid allanol o ystod ehangach o ffynonellau) er mwyn iddynt fedru ystyried gwelliannau i wasanaethau a chyfleusterau. Yn y lle cyntaf byddai'r grŵp am ddarparu:

- dodrefn a ffitiadau gwell, mwy modern;
- rhagor o gyfrifiaduron i'r cyhoedd;
- WiFi, er mwyn medru defnyddio platfformau ychwanegol megis cyfrifiaduron llechen. Dadleuir y byddai hyn yn arbennig o ddeniadol i nifer o ymwelwyr haf a thwristiaid yr ardal;
- cyfleusterau argraffu a llungopïo;
- gwella cyfleusterau sylfaenol yr adeilad - cysylltu â'r prif gyflenwad dŵr, darparu toiled a gwella ymddangosiad ac atyniad yr adeilad yn gyffredinol ar y tu mewn a'r tu allan;
- ehangu amrywiaeth ac argaeledd DVDs a Llyfrau Llafar.

**Problemau**

77. Nodwyd y problemau gweithredol canlynol:

- roedd yr oedi wrth ddod i gytundeb ar elfennau allweddol ar y dechrau wedi tarfu ar y gweithredu yn y cyfnod cychwynnol;
- credir bod y costau rheolaidd a bennwyd yn feichus. Mewn un awdurdod bydd hyfforddiant mewn meysydd megis gofal cwsmer, iechyd a diogelwch a delio â cheisiadau yn cael ei ddarparu yn y dyfodol gan grŵp o wirfoddolwyr sydd â chefndiroedd addas, gan y credir bod ffi hyfforddiant yr awdurdod yn uchel;
- mae cyflwr yr adeiladau a'r ffaith fod hynny'n cyfyngu ar ddatblygu gwasanaeth yn parhau i fod yn broblem fawr mewn rhai achosion;
- dywedwyd bod gwallau mynych gyda'r LMS ac oedi hir i'w atgyweirio a gwneud gwaith cynnal a chadw yn broblem fawr. Rhaid i'r gwirfoddolwyr droi i gofnodi benthyciadau â llaw pan fo problemau o'r fath yn digwydd, a theimlir bod lanlwytho gwybodaeth i'r system pan ddaw i weithio eto yn waith beichus sy'n llyncu llawer o amser;

- mewn rhai achosion mae diffyg cyfleusterau WiFi yn cyfyngu'n fawr ar ddenu defnyddwyr TGCh, yn enwedig ymysg ymwelwyr i'r ardal ac ymysg trigolion gwyliau dros dro;
- soniwyd am ddiffyg cyfleusterau llungopïo ac argraffu mewn rhai achosion;
- ceir problemau rheolaidd â TGCh sydd â mynediad cyhoeddus;
- efallai fod angen addasu oriau agor i adlewyrchu'r gwir batrymau defnyddio a gallai hynny gynnwys eu hamrywio yn ôl y tymor.

78. Dyma faterion eraill sydd hefyd yn berthnasol i brif ystyriaethau'r astudiaeth hon:

- mae ansicrwydd ynghylch sut y caiff y gwasanaeth ei asesu neu ei werthuso gan yr awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Mewn un awdurdod, llofnodwyd cytundeb cychwynnol ym mis Hydref 2014, ac mae'r awdurdod yn nodi y bydd yn dechrau ar y broses werthuso ym mis Awst 2015 a phenderfyniad wedi'i gyfathrebu mewn da bryd (3 mis cyn dyddiad y cytundeb) i rybuddio grŵp y gwirfoddolwyr beth fydd yn ofynnol. Mae angen rhoi'r amserlen hon i'r grŵp gwirfoddolwyr;
- ansicrwydd ynghylch faint o fentora a chefnogaeth y gall y grwpiau gwirfoddol eu disgwyl. Mae dehongliadau a disgwyliadau'r ddwy ochr yn amrywio'n fawr yn hyn o beth;
- mewn un awdurdod mae'r cytundeb cychwynnol yn nodi os credir bod y sefyllfa yn foddhaol yn dilyn yr adolygiad, yna ystyrir ymestyn y cytundeb i hyd at bum mlynedd. Byddai'r grŵp gwirfoddol yn dymuno i'r cyfnod fod yn hwy gan y byddai hyn yn eu rhoi mewn sefyllfa well wrth ymgeisio am grantiau datblygu o wahanol ffynonellau. Mae'r grŵp yn bwriadu cael statws Ymddiriedolaeth yn y dyfodol agos gan gredu y byddent wedyn mewn sefyllfa gryfach i ymgeisio am gymorth. Cefnogwyd gwaith yn y maes hwn drwy gydweithio ag Ymddiriedolaethau llyfrgelloedd cymunedol eraill ac mae cael cyngor gan y rheiny wedi bod yn amhrisiadwy;
- ceir teimlad ymysg arweinwyr gwirfoddol bod anghenion y llyfrgell o ran cynnal a chadw TGCh a'r LMS yn isel iawn ymhlith blaenoriaethau'r awdurdod llyfrgell mewn un achos. Mae methu â darparu data perfformiad allweddol yn cael ei briodoli i'r system yn methu'n aml. Cyfyngiadau mawr ar ansawdd y gwasanaeth yn ôl llawer yw bod lefel disgwyliadau yn gostwng, ymhlith defnyddwyr TGCh yn arbennig, ynghyd â'r gallu i gael mynediad at holl adnoddau'r awdurdod llyfrgell ar ran pob defnyddiwr.

**Heriau i'r Dyfodol**

79. Gellir crynhoi'r heriau i grwpiau cymunedol ac awdurdodau llyfrgell yn y dyfodol fel a ganlyn:

- Cynnal, neu hyd yn oed ychwanegu at, lefelau presennol cefnogaeth yr awdurdodau lleol i wasanaethau llyfrgelloedd cymunedol gan fod y gefnogaeth yn

cael ei disgrifio yn hanfodol i fodolaeth a pharhad gwasanaethau yn y gymuned. Mae eisoes rhywfaint o siom nad oedd y disgwyliadau cychwynnol o ran cyfnewid stoc lyfrau a stoc newydd yn cael eu bodloni. Wrth i amrywiaeth a dewis y deunyddiau sydd ar gael leihau, ofnir y bydd dirywiad cyfatebol yn y defnydd a'r ymrwymiad yn lleol. Efallai y bydd rhai llyfrgelloedd cymunedol yn ceisio ychwanegu at gasgliadau drwy brynu eu stoc eu hunain. Mae ofnau hefyd y bydd y gostyngiadau pellach a osodwyd ar wariant gwasanaeth llyfrgell yr awdurdod yn gwanhau'r ddarpariaeth mewn llyfrgelloedd cymunedol. Mae eisoes yn amlwg hefyd bod colli mynediad at wasanaethau mewn meysydd arbenigol iawn, megis diogelwch, technoleg ac yn y blaen, yn rhoi baich ychwanegol a drud ar weithgareddau grwpiau cymunedol;

- Ehangu rôl gymunedol y safle y mae'r llyfrgell wedi'i lleoli ynddo. Aethpwyd eisoes at y dasg hon mewn ffordd gynyddol gymdeithasol ac entrepreneuraidd gymunedol, ac mae rhychwant estynedig o weithgareddau cymunedol ar gael mewn sawl lleoliad, ond mae hyn yn tueddu i bylu'r ffocws ar y ddarpariaeth llyfrgell mewn rhai achosion;
- Mae bellach yn anoddach cyflawni'r lefelau staffio gwirfoddol gofynnol a bennwyd yn y cytundebau rhwng y ddwy ochr. Nododd un grŵp fod diddordeb y gymuned eisoes yn gwanhau 8 mis i mewn i'r fenter newydd, a bod rota gwirfoddolwyr y llyfrgell wedi edwino i gnewyllyn bychan. Anodd yw sicrhau ystod ddigonol o gymwyseddau a sgiliau arbenigol ymhlith y gwirfoddolwyr, yn enwedig mewn meysydd fel codi arian, rheoli adeiladau ac asedau, cyflogi staff cyflogedig, delio â chyflenwyr a chontractwyr, ac o ran TGCh. Rhagwelir hefyd y bydd hyd yn oed fwy o gyfleusterau a gwasanaethau blaenorol awdurdodau lleol yn cael eu clustnodi i'w cau neu eu trosglwyddo i grwpiau cymunedol yn y dyfodol agos, a bydd y galw am amser gwirfoddolwyr yn dwysáu'n arw;
- Sicrhau digon o gyllid refeniw i gynnal y gwasanaeth presennol. Mae hyd yn oed un o'r llyfrgelloedd cymunedol ymddangosiadol fwyaf blaengar a sefydlwyd ers Ebrill 2014 yn sôn yn ei chylchlythyr ei bod wedi sicrhau cyllid (tua £25,000 hyd yn hyn o amrywiaeth o ffynonellau) sydd ond yn ddigon ar hyn o bryd i gadw'r llyfrgell ar agor tan fis Ebrill 2015. Mae eraill wedi sicrhau rhywfaint o arian ychwanegol at ddibenion penodol, er bod natur y datblygiadau weithiau wedi'u rheoli gan delerau ac amodau cynlluniau grant yn hytrach na'u rheoli gan flaenoriaethau'r llyfrgelloedd cymunedol eu hunain. Dywedir bod cynhyrchu incwm yn her sylweddol a mynych, ac mae ymdeimlad o rwystredigaeth eisoes yn amlwg mewn rhai achosion fod holl enillion gweithgareddau codi arian yn gorfod mynd ar ymrwymiadau craidd presennol a rheolaidd, ac mae'n annhebygol y bydd grwpiau gwirfoddol yn gallu ariannu datblygiadau a dyheadau uwch yn y dyfodol. Serch hynny, mae'n bwysig nodi bod enghreifftiau o lwyddiannau diweddar o ddenu cyllid at ddibenion datblygu ymysg y llyfrgelloedd cymunedol hyn - yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu llwyddwyd i gael arian ar gyfer moderneiddio'r cyfleusterau TGCh, ar gyfer datblygu rhaglen weithgareddau, ac ar gyfer ehangu ac adnewyddu adeilad y llyfrgell. Mae un grŵp yn gobeithio datblygu'r cysyniad o ddanfon eitemau i'r cartref fel ychwanegiad arloesol i'w gwasanaethau;

- Egluro’n gliriach a datrys rhai amwyseddau yn y trefniadau presennol rhwng yr awdurdod llyfrgell a’r llyfrgelloedd cymunedol, yn enwedig o ran darpariaeth TGCh yn y dyfodol. Ymddengys fod un awdurdod lleol wedi ymrwymo i gefnogi a chynnal darpariaeth TGCh yn ystod oes y cyfarpar a’r tanysgrifiadau presennol yn unig. Wedi hynny, bydd disgwyl i’r grwpiau cymunedol gymryd cyfrifoldeb llawn am gostau adnewyddu caledwedd a meddalwedd ac am gostau sylfaenol isadeiledd telathrebu. Mae rhai ohonynt eisoes yn cael problemau gyda’r offer a’r cyfleusterau, ac yn dechrau ar broses o gael cefnogaeth ariannol ar gyfer rhaglen adnewyddu’r ddarpariaeth TGCh. Mae gan yr awdurdod bryderon hefyd ynghylch sut i gynnal y cyswllt LMS pan gaiff yr LMS newydd ledled Cymru gyfan ei gomisiynu a’i osod, oherwydd bydd ymestyn y cyfleuster newydd i lyfrgelloedd cymunedol yn golygu cryn wariant ar ran yr awdurdod ei hun;
- Her sylweddol cynnal a chadw adeiladau llyfrgelloedd. Roedd rhai o'r llyfrgelloedd a nodwyd ar gyfer eu cau eisoes yn achosi problemau oherwydd eu cyflwr ac oherwydd eu bod yn y bôn yn anaddas fel lleoliadau i ddarparu gwasanaethau llyfrgell fodern. Mae cynnal a chadw a’r holl gostau rhedeg mewn rhai achosion eisoes yn sialens, ac mae rhwymedigaethau hirdymor ar y gorwel mewn rhai achosion. Awgrymodd rhai ymatebwyr i’r astudiaeth hon bod adnoddau cyfalaf yn haws eu canfod a chael gafael arnynt na chyllid refeniw. Mae angen cryn fuddsoddiad mewn sawl lleoliad. Ar y llaw arall, mae tystiolaeth fod rhai llyfrgelloedd blaenorol yn dod yn fwy egnïol a llwyddiannus fel ffocws i weithgarwch cymunedol mewn ystod ehangach o feysydd;
- Gwella’r trefniadau ar gyfer hyfforddi gwirfoddolwyr. Ystyrir hyn gan y ddwy ochr i fod yn fater sydd angen sylw brys - mae gwirfoddolwyr ar adegau’n amharod i fynychu hyfforddiant yn ychwanegol at ymrwymo i ddyletswydd rota, ac yn ôl staff awdurdodau nid yw gwerth hyfforddiant bob amser yn cael ei werthfawrogi a’i ddeall ymysg gwirfoddolwyr;
- Sicrhau’r holl drefniadau llywodraethu, yswiriant atebolrwydd, yswiriant cyfreithiol, a threfniadau eraill a nodir yn y cytundeb partneriaeth;
- Mynd i’r afael â gallu cyfyngedig llyfrgelloedd cymunedol i ddiwallu ac ymateb i anghenion grwpiau defnyddwyr allweddol, megis disgyblion ysgolion cynradd, a threfnu gweithgareddau llyfrgell addas a gweithgareddau sy’n seiliedig ar ddarllen ar eu cyfer fel y gwnaed yn y gorffennol;
- yn yr achosion hynny pan fo llyfrgelloedd cymunedol yn gynyddol yn dod yn ganolbwynt i weithgareddau cymunedol, cyflenwi a rheoli rhaglen ddatblygol o weithgareddau cymdeithasol a chymunedol ar y cyd â rhagor o bartneriaid a chleientiaid. Yn un llyfrgell gymunedol mae llyfrgellydd cymwysedig rhan-amser ar gyflog yn arwain y fenter; mae eraill yn dweud bod sicrhau sefyllfa debyg yn ateb angenrheidiol i broblemau fel hyn. Mae adnoddau dynol sy’n edwino yn gorfod cael eu rhannu ymhlith amrywiaeth o weithgareddau, ac mae’r gwasanaeth llyfrgell yn dod yn ddim ond un o nifer o bethau i ofalu amdanynt;
- Mynd i’r afael â natur fwy cyfyngedig y berthynas rhwng staff gwirfoddol a defnyddwyr llyfrgell gymunedol o ran cyngor, arweiniad ac ymateb i geisiadau am wybodaeth, ac o ran cefnogi’r defnydd o TGCh;

- Darparu ffocws cymunedol a chefnogi bywyd cymunedol pan fo darpariaeth o bob math arall yn y sectorau cyhoeddus a phreifat wedi lleihau neu ddiflannu yn gyfan gwbl i raddau helaeth.

**Dibyniaeth ar yr awdurdod lleol**

80. **Y ffordd orau i ddisgrifio'r model hwn yw fel darpariaeth llyfrgell gymunedol wedi'i chefnogi gan awdurdodau lleol. Mae'r ddibyniaeth ar yr awdurdod lleol yn sylweddol, a heb y gefnogaeth honno mae'n anodd gweld sut y byddai llawer o'r llyfrgelloedd yn goroesi.**

**Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru**

81. Yn ogystal â'r awdurdodau sydd wedi cymryd rhan yn yr ymchwil hon, mae eraill hefyd wedi mynegi dymuniad i gynnwys data sy'n ymwneud â llyfrgelloedd dan reolaeth gymunedol yn eu Ffurflen Datganiad Blynyddol o dan Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru oherwydd:

    - mae'r awdurdod lleol yn cyfrannu'n sylweddol o ran gwariant gwirioneddol ar gefnogi llyfrgell dan arweiniad y gymuned, yn enwedig cyfrannu at y stoc lyfrau, ond caiff ad-daliad am agweddau eraill y gefnogaeth;
    - mae bodolaeth y llyfrgell sydd dan reolaeth y gymuned yn llenwi bwlch a fyddai fel arall yn fwlch mawr yng nghyrhaeddiad ac ehangder daearyddol y gwasanaeth.

82. Serch hynny maent yn sylweddoli:

    - na fydd y casglu data efallai mor gadarn ag y gellid disgwyl oherwydd problemau gyda'r LMS a ffactorau eraill;
    - ymddengys fod gostyngiad sylweddol iawn eisoes yn nifer yr eitemau sy'n cael eu benthyg, ond mae hwn yn amlwg yn fater sydd angen ei gadarnhau;
    - mae tuedd benodol yn codi fod cyn-ddefnyddwyr llyfrgelloedd sydd bellach dan reolaeth y gymuned yn mynd ar ofyn gwasanaethau mewn cyfleusterau wedi'u moderneiddio gerllaw a staff llyfrgell sydd wedi trosglwyddo yno yn eu hadnabod, neu eu bod yn mynd i drefi cyfagos mwy o faint.

**Astudiaeth Achos - Darpariaeth Statudol**

Mae cynnwys gwaith a chyfraniad llyfrgell(oedd) cymunedol sydd o fewn ffiniau awdurdod yn rhan o'i ddarpariaeth statudol yn codi sawl sefyllfa anodd sy'n gwrthddweud ei gilydd:

- mae perfformiadau mewn rhai achosion wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i'r dull newydd o ddarparu llyfrgell ac oherwydd gwendid sylfaenol y berthynas mewn agweddau allweddol fel y nodwyd uchod. Yn ogystal mae dilysu peth o'r data a grëwyd gan

lyfrgelloedd cymunedol unigol yn broblem na fyddai'r awdurdod yn dymuno ymhél â hi;

- byddai peidio defnyddio data perfformiadau penodol y llyfrgelloedd cymunedol wrth gyfrifo darpariaeth statudol yr awdurdod yn ei ddata i Lywodraeth Cymru yn golygu na allai'r awdurdod gynnwys yr adnoddau a'r deunyddiau, gan gynnwys TGCh, a'i ymrwymiad parhaus i eitemau y mae wedi gwario arnynt, eu trosglwyddo neu eu gadael i'r llyfrgelloedd cymunedol ers mis Ebrill 2014 fel rhan o'i becyn cymorth iddynt. Byddai anwybyddu'r data o lyfrgelloedd cymunedol yn anfantais i berfformiadau cyffredinol yr awdurdod yn y Ffurflen Datganiad Blynyddol ac o bosibl yn effeithio ar yr asesiad dilynol ar wasanaeth llyfrgell yr awdurdod;
- mae perfformiadau a gweithgareddau mewn rhai achosion wedi datblygu a gwella mewn rhai agweddau; mae rhai ohonynt, megis amrywiaeth ehangach o weithgareddau cymunedol mewn llyfrgell, yn berthnasol ac yn werthfawr i'r Ffurflen Datganiad Blynyddol o dan y Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- mae cryn ddiddordeb a chefnogaeth wleidyddol ymysg partneriaid yn y trefniadau cyfredol, ond mae'n bosibl fod terfyn amser i'r ymrwymiad mewn meysydd penodol o ran y ddarpariaeth a'r gefnogaeth, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau a chyfleusterau TGCh.

Mae'r ddogfen manyleb gwasanaeth sy'n sail i'r berthynas rhwng y gwahanol lyfrgelloedd unigol a'r awdurdod yn cyfeirio at *y safonau gwasanaeth* a ddisgwylir gan grwpiau cymunedol sy'n rheoli llyfrgelloedd. Mae'r rhain yn gyfuniad o weithdrefnau arferol, sicrhau bod cyfleusterau ar gael, gofynion cyfreithiol sylfaenol a chydymffurfio ag amrywiaeth o ofynion gwahanol. Mae hefyd yn cyfeirio at y bwriad i fynd ati gyda'i gilydd yn flynyddol i fonitro ac adolygu'r gwasanaeth a ddarperir ym mhob achos, ynghyd â chefnogaeth drwy ymweliadau bob chwarter gan swyddogion perthnasol yr awdurdod. Byddai unrhyw help, cefnogaeth a chyngor angenrheidiol yn cael eu llunio ar sail canfyddiadau'r prosesau hynny. Byddai methu â chydymffurfio ag unrhyw ymrwymiadau pwysig o bosibl yn arwain at beidio â chael cymorth neu wasanaethau penodol, ond mae'r pwyslais am nawr, yn ddigon priodol, yn parhau i fod ar gymorth a chyngor parhaus yn hytrach na gosod sancsiynau.

Nid oes cyfeiriad penodol fel y cyfryw yn y dogfennau partneriaeth eang ynghylch cynnwys data perfformiad o lyfrgelloedd cymunedol yn Ffurflen Datganiad Blynyddol yr awdurdod i Lywodraeth Cymru, ac nid oes unrhyw gyfeiriad at gynnwys gwasanaethau llyfrgell gymunedol yn rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod. Fodd bynnag, pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chanllawiau ynghylch yr hyn a olygir wrth ddarpariaeth statudol, nid oes dwywaith y bydd yr awdurdod yn ystyried y canllawiau hynny a phwyso a mesur ei sefyllfa yntau.

Yn yr achos hwn, fodd bynnag, elfen allweddol i'r penderfyniad a wneir yn y pen draw yn y cyd-destun hwnnw siŵr o fod fydd y ffaith nad oes gan yr awdurdod llyfrgell statudol unrhyw reolaeth dros staffio ac adeiladau'r llyfrgelloedd cymunedol, nac ychwaith reolaeth dros yr oriau agor cyfyngedig iawn sydd fel petaent yn lleihau yn rhai o'r cyfleusterau.

**Mabwysiadu pellach posibl ar Fodel B**

83. Gwyddys fod un o'r awdurdodau sydd yn yr astudiaeth hon wrthi'n ystyried mabwysiadu trefniadau tebyg ar gyfer un, os nad dwy, lyfrgell arall sy'n bodoli eisoes. Bydd y penderfyniadau terfynol ynghylch y llyfrgelloedd hynny yn cael eu gwneud ar ôl cwblhau proses ymgynghori'r awdurdod ar gynigion ynghylch cwtogi pellach ar wariant, cwblhau asesiadau effaith ac asesiadau opsiynau yn ymwneud â lleoliadau eraill posibl ar gyfer gwasanaeth llyfrgell, yn ogystal ag ystyried materion lleol penodol eraill. Os bydd y newid yn digwydd ac os gweithredir trefniadau digon tebyg i'r rhai y mae wedi ei fabwysiadu ar hyn o bryd, ac o ystyried y profiad y mae wedi'i gael o'i drefniant cychwynnol gyda grŵp gwirfoddol, mae'r awdurdod yn debygol hefyd o fod eisiau cynnwys data sy'n ymwneud â'r llyfrgelloedd hynny yn ei Ffurflenni Datganiadau Blynyddol i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

84. Mae awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru wrthi'n ymgynghori ar naill ai gau llyfrgelloedd neu drosglwyddo adnoddau llyfrgell i reolaeth gymunedol gan ddefnyddio'r model hwn. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig mwy o arbedion ariannol na Model C isod.

***Argymhellion***

**VI. Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael mewn perthynas â data gweithredol a byddai'n rhaid monitro perfformiad y model hwn ymhellach ar ôl 12 mis (h.y. erbyn mis Ionawr 2016) er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd gwahanol fodelau. Mae llwyddiant llyfrgelloedd unigol yn dibynnu'n fawr iawn ar ffactorau lleol.**

**VII. Mae angen rhannu dogfennaeth er mwyn ceisio safoni cytundebau lefel gwasanaeth a dogfennau eraill mewn perthynas â sefydlu'r math hwn o lyfrgell dan reolaeth y gymuned. Gellid addasu rhai o'r dogfennau a ddatblygwyd o dan fodel C ar gyfer y dibenion hyn.**

**Model C - Llyfrgelloedd wedi'u rhedeg gan y gymuned sy'n elwa o gael adnoddau, cyngor, hyfforddiant a staff cyflogedig ym mhob llyfrgell, yn uniongyrchol o'r awdurdod lleol**

85. Mae un awdurdod wedi bod yn gweithredu cynllun datblygu llyfrgelloedd strategol ers pedair blynedd ac yn y cynllun hwnnw roedd haen o lyfrgelloedd a gâi eu categoreiddio yn 'llyfrgelloedd cymunedol' o'r dechrau un. Roedd y llyfrgelloedd hyn fel arfer ymhlith y lleiaf eu maint, roedd rhai o'u hadeiladau yn peri problemau, ac ar y dechrau ystyrid y darparu gwasanaethau ynddynt yn llai na chost effeithiol ac yn gyfyngedig ei natur. O ganlyniad ystyriwyd y mannau gwasanaeth hyn yn fregus wrth i'r awdurdod geisio rhesymoli darpariaeth mewn amgylchiadau o orfod cwtogi ar adnoddau, ac wrth iddo fuddsoddi yn ei lyfrgelloedd mawr eraill a oedd o fewn pellter teithio weddol rwydd i drigolion y cymunedau hyn.

86. Gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, cyflogodd yr awdurdod swyddog datblygu yn bwrpasol ar gyfer y fenter llyfrgell gymunedol o fewn y cynllun datblygu. Roedd yr awdurdod yn awyddus i rannu ei brofiad gydag awdur yr ymchwil hwn, gan gysylltu ag ef yn ystod y gwaith i sôn am faterion penodol. Yn arbennig, mynegodd yr awdurdod ei bryder fod adroddiad y Panel Arbenigol yn awgrymu nad yw llyfrgelloedd cymunedol yn cael eu hystyried yn rhan o'r ddarpariaeth statudol yn y tymor byr, ac nid yn y dyfodol ychwaith o bosibl. O ganlyniad teimlai'r awdurdod na fyddai ei waith yn y maes hwn yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn ei Ffurflenni Datganiadau Blynyddol i Lywodraeth Cymru nac ychwaith wrth i'w ddarpariaeth a'i berfformiadau statudol cyffredinol gael eu hasesu yn y dyfodol. Roedd yr awdurdod yn fodlon bod yn rhan o'r ymchwil fel astudiaeth achos penodol.

87. Yn ei amserlen a'i gynllun gwaith gwreiddiol ar gyfer gweithredu gwahanol linynnau'i gynllun datblygu, roedd yr awdurdod yn hyderus y gallai sefydlu llyfrgelloedd cymunedol dros gyfnod o ddwy flynedd hyd at fis Mawrth 2014. Yn gyffredin â phrofiad awdurdodau mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, cymerodd y dasg lawer hirach nag y tybiwyd yn wreiddiol oherwydd amrywiaeth o resymau. Fodd bynnag, erbyn Rhagfyr 2014 roedd tair llyfrgell gymunedol ar waith fel rhan o batrwm darpariaeth yr awdurdod llyfrgell; mae dwy arall wedi cytuno ar holl delerau ac amodau angenrheidiol y trefniant gyda'r awdurdod lleol. Mae pedair o'r pum llyfrgell gymunedol sydd eisoes ar agor neu ar fin agor cyn bo hir, yn cynnig gwasanaethau llyfrgell am 15 awr yr wythnos (bydd y bumed yn agor am 10 awr yr wythnos ar gais y sefydliad cymunedol dan sylw gan ei fod yn rhoi mwy o bwyslais ar ansawdd a dwyster y defnydd yn hytrach nag ar nifer yr oriau). Ond mae adeiladau pob un o'r pum llyfrgell erbyn hyn yn cael eu hystyried yn safleoedd sydd â swyddogaethau a rolau cymdeithasol a chymunedol ehangach, felly gallai pob un ohonynt fod ar agor ac ar gael am sawl awr ychwanegol yr wythnos, ar gyfer dibenion eraill.

88. Mae'r awdurdod yn rhagweld y bydd yn adolygu oriau agor ei lyfrgelloedd cymunedol yn rheolaidd ar y cyd â'r grwpiau cymunedol, ac yng ngoleuni'r profiad o weithredu'r llyfrgelloedd hyn. Lle bo modd, mae darparu gwasanaeth benthyca y tu allan i oriau hefyd yn cael ei gynnwys yn rolau'r partneriaid, ac os bydd yr holl weithgareddau cymunedol a gynlluniwyd o fewn yr adeilad cymunedol yn digwydd, byddai hyn yn gwella'n fawr ar y defnydd o'r llyfrgell yn yr un adeilad.

89. Mae'n bwysig nodi fod gan y llyfrgelloedd cymunedol hyn drefniant staffio hybrid, gyda'r awdurdod llyfrgell yn darparu 15 awr yr wythnos o'i amser staff ei hun fel ei gyfraniad at reoli'r ddarpariaeth llyfrgell yn y safleoedd hyn. Adroddwyd fod polisïau a'r dulliau gweithredu wedi cael eu datblygu'n dilyn ymgynghoriad gyda'r undebau perthnasol ac mae'r recriwtio yn cynnwys cydweithio gyda nifer o bartneriaid gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfiawnder Ieuenctid, yn ogystal â'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol. Cydnabyddir bod yn dal angen recriwtio gwirfoddolwyr ychwanegol sydd â set sgiliau mwy penodol ac amrywiol yn y dyfodol, yn enwedig ym maes darpariaeth TGCh, platfformau cyfryngau newydd a meysydd gweithgaredd eraill

mwy arbenigol. Efallai y bydd patrwm y ddarpariaeth felly yn newid, ond bydd yn parhau i fod yn ymatebol i anghenion y gymuned ac i ymgynghori â hi, ac o fewn y cytundeb rhwng yr awdurdod llyfrgell a'r sefydliad cymunedol. Mae recriwtio gwirfoddolwyr wedi bod yn un o brif weithgareddau'r swyddog datblygu ar y cyd â'r grwpiau cymunedol, a bydd y rôl honno yn parhau yn y dyfodol. O'r herwydd, mae hwn yn drefniant sydd wedi bod yn ganmoladwy o lwyddiannus ac mae'n bwysig iawn wrth gynnig cynsail a ffordd ymlaen i'r awdurdodau llyfrgell eraill hynny yng Nghymru sy'n ystyried creu llyfrgelloedd cymunedol.

90. Mae'r ddarpariaeth llyfrgell yn y llyfrgelloedd cymunedol yn parhau i fod yn ddigyfnewid cyn belled ag y mae defnyddwyr yn y cwestiwn; mae'r cyfleusterau a'r gwasanaethau yn parhau i gael eu brandio fel darpariaeth yr awdurdod lleol gyda chydnabyddiaeth ychwanegol i'r bartneriaeth. Ond mae cryn ehangu wedi bod ar yr hyn a gynigir ac yn amrywiaeth y gweithgareddau cysylltiedig a gynhelir yn adeiladau'r llyfrgelloedd, yn ogystal ag yn nifer y mudiadau sy'n gweithredu ynddynt ers iddynt ddod yn gyfleusterau wedi'u cefnogi a'u rheoli gan y gymuned. Maent bellach yn cyflawni swyddogaethau a gwasanaethau cymunedol y mae llawer o fannau gwasanaeth llyfrgell statudol eraill yng Nghymru yn dal i geisio'u hefelychu. Serch hynny, pwysleisia'r awdurdod fod y trefniadau a wnaed ym mhob lleoliad yn sicrhau bod y ddarpariaeth llyfrgell yn parhau i fod y brif flaenoriaeth yn bennaf oll.

91. Mae'r bartneriaeth rhwng yr awdurdod llyfrgell statudol a grwpiau cymunedol yn seiliedig ar gytundeb lefel gwasanaeth ffurfiol a gorchmynnol iawn sy'n cynnwys nodau, cenhadaeth ac amcanion sydd yn gyffredinol yn ogystal â bod yn gysylltiedig ag anghenion a dyheadau penodol y cymunedau neu'r sefydliadau sy'n cydweithio. Bwriedir i'r cytundeb fod yn weithredol am gyfnod o dair blynedd yn y lle cyntaf, ond estynnir hwn i bum mlynedd mewn rhai achosion os yw telerau ac amodau unrhyw grant cymorth a gafwyd i hwyluso'r gwasanaeth yn nodi cyfnod hirach. Mae'r awdurdod yn ymrwymo i ddarparu'r canlynol i bob llyfrgell gymunedol:

- casgliad craidd o 3,000 o lyfrau sy'n aros yn eiddo i'r awdurdod;
- defnydd staff o'r System Rheoli Llyfrgell (LMS)
- cyfnewid a chylchdroi stoc yn rheolaidd;
- 4 cyfrifiadur i'r cyhoedd sydd â mynediad i'r Rhyngrwyd ac/neu WiFi diogel;
- isadeiledd rhwydwaith cyfathrebu a thechnolegol angenrheidiol;
- gweithdrefnau Diogelu Data;
- silffoedd a dodrefn a ffitiadau angenrheidiol eraill;
- mynediad rheolaidd at gyngor a chefnogaeth broffesiynol, gyda rhaglen reolaidd o gyfarfodydd gyda'i gilydd bob 6 mis
- talu staff am 15 awr.

92. Yn ogystal, mae'r cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod enwi swyddog/ion cyswllt perthnasol, yr oriau agor dynodedig a'r rhai y cytunwyd arnynt ar gyfer rhan

llyfrgell y cyfleuster cymunedol, dosbarthiad y cyfrifoldebau er mwyn bodloni deddfwriaethau penodol, cyfnod y cytundeb a'r cyfnod rhybudd i'w derfynu, telerau unrhyw gytundeb i adnewyddu'r bartneriaeth ffurfiol, a natur trefniadau a chyfrifoldebau rheoli o ddydd i ddydd. Mae'n amlwg yn rhy gynnar i ddechrau asesu pa mor effeithiol yw'r trefniadau hyn.

93. O'u rhan nhw, disgwylir i'r grwpiau cymorth cymunedol:

- fod yn fudiad elusennol sydd â chyfansoddiad priodol;
- cymryd cyfrifoldebau lesddeiliaid am yr adeilad a'r gofod y mae'r llyfrgell ynddynt a sicrhau cydraddoldeb mynediad a defnydd;
- prynu a threfnu yswiriant ac indemniad priodol ar gyfer eu helfennau hwy o waith y bartneriaeth, ac eithrio yn y meysydd hynny a ddiffinwyd yn glir lle byddai'r awdurdod yn parhau i ddarparu trefniadau digonol;
- enwi pobl briodol i gysylltu â nhw;
- llunio a chadw cynllun busnes a mesur canlyniadau yn erbyn y targedau sydd yn y cynllun;
- cymryd rhan yn y gwaith o gasglu ystadegau;
- gofalu am stoc, dodrefn a chyfarpar;
- sicrhau nad oes unrhyw ddefnydd amhriodol o'r offer telathrebu a thechnoleg;
- rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau a chyfleusterau'r llyfrgell;
- cydymffurfio â pholisi'r awdurdod mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

94. Hyd yma nid oes digon o dystiolaeth i fedru asesu mewn unrhyw ffordd pa mor effeithiol yw'r trefniadau hyn.

95. Mae natur cyfraniad y gwirfoddolwyr a'r rheolaeth arnynt hefyd yn cael eu diffinio'n fanwl yn y cytundebau partneriaeth, a nodwyd yn glir beth yw rolau gwahanol yr awdurdod a'r grwpiau cymunedol a sefydliadau partner. Rhan hon y cytundeb sy'n cyfeirio'n bennaf at hyfforddiant y gwirfoddolwyr o ran ymddygiad ac ymarweddiad, cyflawni targedau ac amcanion y bartneriaeth, a phwysigrwydd Llawlyfr y Gwirfoddolwr Cymunedol.

96. Ceir cyfeiriadau at safonau ansawdd y gwasanaeth a thargedau'r bartneriaeth yng ngwahanol amodau a chyfrifoldebau penodol y cytundeb, megis y gofyniad bod y grŵp cymorth yn cynorthwyo'r awdurdod i gynnal ei gyflawniadau yn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Er hynny, mae'r cytundeb ffurfiol rhyngddynt hefyd yn cyfeirio at fonitro ac adolygu perfformiadau a'r trefniant cyffredinol. Dyma'r materion penodol sydd yn y gweithdrefnau monitro ac adolygu arfaethedig:

- asesu perfformiad yn erbyn targedau (gellid yn rhesymol ddisgwyl fod y rhain yn amrywio yn ôl amgylchiadau a disgwyliadau lleol);
- gwerthuso pa mor gynaliadwy yw'r gwasanaeth;
- ystyried barn ac adborth cwsmeriaid.

97. Rhagwelir y bydd y broses hon yn digwydd fel rhan o’r cyfarfodydd adolygu blynyddol a nodir fel rhan o’r cytundeb lefel gwasanaeth.

98. Gellir gweld eisoes yng ngwaith a chyflawniadau’r awdurdod a’i sefydliadau partner pa mor werthfawr yw cael amser swyddog penodedig i ddatblygu’r cysyniad o lyfrgelloedd cymunedol dan arweiniad a rheolaeth awdurdod, a’r dull manwl a phwyllog a ymddengys yn angenrheidiol i weithredu strwythurau llyfrgell gymunedol. Yn yr astudiaethau achos eraill yn y gwaith ymchwil hwn, ychydig iawn o amser a gafodd awdurdodau a phartneriaid i ddatblygu a chytuno ar drefniadau, ac mae’r berthynas yn amlwg yn dal i esblygu i ryw raddau ac angen ei mireinio ymhellach mewn amryw o sefyllfaoedd gwahanol. Yn y model penodol hwn, mae’r trefniadau manwl a’r cytundebau ffurfiol cynhwysfawr yn seiliedig i raddau helaeth ar ystyriaeth fanwl, ymgynghori helaeth, profiad cronedig gwerthfawr, ac adfyfyrio. Dylai CyMAL, yn sgil ei gymorth i waith gweinyddu cam cyntaf y model hwn, fod yn fodlon bod yr hyn sydd wedi dod ohono yn darparu templed gwerthfawr i awdurdodau eraill yng Nghymru i’w ddilyn os ydynt yn dymuno datblygu haen llyfrgelloedd cymunedol ar gyfer rhai o’u llyfrgelloedd llai o faint.

99. Mae gan yr awdurdod a’i swyddogion a sefydliadau partner rôl bwysig wrth gynnig cymorth i gefnogi a chynghori unrhyw awdurdodau eraill yng Nghymru (ac o bosibl mewn mannau eraill) sydd yn ceisio datblygu’r cysyniad o lyfrgelloedd cymunedol dan arweiniad awdurdod.

100. **O ran y materion craidd sy’n cael sylw’r astudiaeth ymchwil hon, mae nifer o nodweddion pwysig i’r astudiaeth achos hon:**

- **mewn lleoliadau dethol mae gwasanaethau llyfrgell sy’n cael eu hadnabod a’u brandio i fod yn rhai’r awdurdod llyfrgell mewn partneriaeth a’r ‘llyfrgelloedd cymunedol’; ac er cael eu sefydlu a’u cefnogi gyda chryn gymorth gan grwpiau cymunedol, mae’r gwasanaethau hyn yn parhau i fod yn ffurfiol dan arweiniad yr awdurdod llyfrgell ac wedi’u cyd-reoli drwy gytundebau partneriaeth lefel gwasanaeth sy’n gadarn, yn eang eu cwmpas ac wedi’u dosrannu’n glir;**
- **mae’n glir pa brif elfennau yn y cytundebau lefel gwasanaeth sy’n gwneud yr awdurdod hwn yn wahanol i’r awdurdodau eraill yng Nghymru sydd wedi mabwysiadu'r model llyfrgell gymunedol. Mae’r elfennau gwahanol yn ymwneud â pharhau i ddefnyddio gweithlu cyflogedig yr awdurdod, ond wedi’u hategu gan wirfoddolwyr; rolau’r staff gwirfoddol wedi’u pennu a’u diffinio’n glir; isafswm oriau agor gofynnol; yn ogystal â lefelau darpariaeth graidd sydd wedi’u diffinio’n glir. Yn yr enghraifft hon mae ymrwymiad hefyd i fonitro a gwerthuso’r gwasanaeth o bryd i'w gilydd, ac mae’r cytundeb lefel gwasanaeth yn sôn yn benodol am gynnal safonau a lefelau perfformiad sy’n ymwneud â fframwaith perthnasol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.**

101. Yn debyg i'r trefniadau a wnaed rhwng awdurdodau llyfrgell a sefydliadau partner mewn mannau eraill, nodir yn glir fod y grŵp cymunedol partner yn gyfrifol am yr adeilad a'r gofod y mae'r gwasanaethau llyfrgell yn cael eu darparu ynddynt. Yn y gorffennol roedd llawer o fannau gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru a ddiffinnid yn statudol hefyd yn seiliedig ar drefniadau nid annhebyg. Mae llawer o lyfrgelloedd statudol yn parhau i ddarparu gwasanaethau o adeiladau ar brydles, a rhai ohonynt yn dal heb fod yn foddhaol o ran eu cyflwr ac addasrwydd i bwrpas. Mae'r awdurdod yn y model hwn wedi ymdrechu i foderneiddio ac adnewyddu'r adeiladau lle bydd yn darparu ei 'lyfrgell gymunedol' cyn eu trosglwyddo i reolaeth y gymuned. Mae'n bosibl y gallai gwasanaethau llyfrgell statudol yng Nghymru yn y dyfodol gael eu darparu o adeiladau fydd â threfniadau cynyddol wahanol o ran perchnogaeth a rheolaeth. Mae nifer o awdurdodau llyfrgell Cymru wrthi'n ystyried ac yn ymchwilio i brosesau trosglwyddo asedau a threfniadau cyd-leoli, ac mae'n bosibl na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu bod mor orchmynnol yn y dyfodol o ran pennu gofynion ansoddol a meintiol parthed adeiladau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'n bosibl iawn mai ystyriaeth bwysicach yn y dyfodol fydd cadw llyfrgelloedd o natur addas yn agored, a hynny drwy amrywiaeth o ddulliau arloesol.

102. **O ran cynnwys gwasanaethau a mannau gwasanaeth o dan y term 'llyfrgell gymunedol' wrth asesu darpariaeth statudol, mae'r mater hwn yn codi problem benodol yn achos yr awdurdod hwn. Bu i'r rhan fwyaf o'r awdurdodau eraill yn yr ymchwil hwn drosglwyddo cyfrifoldeb i sefydliadau partner (neu byddant yn gwneud hynny cyn bo hir) yn unol â'r flwyddyn ariannol. Fel arfer câi'r trefniadau newydd eu rhoi ar waith ar 1 Ebrill yn yr achosion hynny. Yn yr awdurdod hwn, fodd bynnag, mae llyfrgelloedd cymunedol wedi dechrau gweithredu (neu maent ar fin gwneud hynny) ar ddyddiadau gwahanol yn ystod y flwyddyn ariannol, a byddai argymhelliad y Panel Arbenigol i beidio â chynnwys llyfrgelloedd cymunedol wrth gyfrifo perfformiad darpariaeth statudol yn golygu y bydd yn rhaid diystyru perfformiadau a gweithgareddau perthnasol mewn rhai lleoliadau am gyfnod o hyd at 10 neu 11 mis yn ystod y flwyddyn 2014-15. Byddai hynny'n eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol tu hwnt, a gellid dadlau na fyddai'r Ffurflen Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2014-15 wir yn adlewyrchu cyfanrwydd perfformiadau a chyflawniadau'r awdurdod. Byddai hyn yn eu rhoi yn yr un sefyllfa anffodus ag un o'r awdurdodau hynny sydd wedi trosglwyddo rheolaeth y gwasanaeth llyfrgell i Ymddiriedolaeth ar ganol blwyddyn (gweler Argymhelliad I uchod).**

***Argymhelliad***

**VIII. Waeth beth y bydd Llywodraeth Cymru yn y pen draw yn ei bennu yn ei phenderfyniadau a chanllawiau arfaethedig ar y mater hwn, ymddengys yn briodol y dylai'r awdurdod hwn, ac awdurdodau eraill yr effeithir arnynt yn Adran 2, gael o leiaf adrodd am y gyfran honno o'u gweithgareddau a'u cyflawniadau am y misoedd yn 2014-15 pan oedd y llyfrgelloedd dan sylw yn dal i fod yn rhan o**

**drefniadau statudol confensiynol blaenorol. Yn wir, mae'n bosibl y gallai'r model a'r trefniadau a ddatblygwyd gan yr awdurdod ym Model C fod yn sail i ddiffinio'r rhwymedigaethau statudol lleiaf trwy'r model llyfrgell gymunedol. Dyma fater a drafodir ymhellach yn Adran 5 isod.**

## 5. Sylwadau Terfynol

103. O’r ymchwil hwn, mae’n bosibl casglu bod awdurdodau llyfrgell yng Nghymru nawr yn gorfod cyflawni eu rhwymedigaethau statudol i ddarparu gwasanaethau llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon drwy wario llawer llai o arian, ac o ganlyniad bod yn rhaid iddynt ddefnyddio dulliau amgen, arloesol a llai traddodiadol yn eu gwaith a’u darpariaeth. Mae’r newidiadau hyn yn debygol o ddigwydd ar raddfa gyflymach, ac mae’n bosibl y bydd awdurdodau lleol yn gweithredu eu cynigion heb ystyried pa ymyrraeth bynnag fydd gan Lywodraeth Cymru oherwydd mai mantoli cyllidebau drwyddi draw fydd eu prif gyfrifoldeb a phryder.

104. Ymddengys hefyd fod yr ymrwymiad i gydnabod rhwymedigaethau statudol yn y sector llyfrgelloedd cyhoeddus wedi gwanhau yn y cyfnod diweddar - yn rhannol oherwydd dehongli camarweiniol ar rwymedigaethau statudol gan wahanol sefydliadau ac awdurdodau llyfrgell a’u cynrychiolwyr, ond hefyd oherwydd nad oes yn dal ddiffiniadau clir a diamwys o ofynion Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Mae gwahanol fframweithiau Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2002 wedi cyflawni rhai swyddogaethau defnyddiol. Eu nod ar y dechrau oedd cynnig rhyw fath o arweiniad ynghylch sut i ddehongli gofynion y Ddeddf drwy nodi meysydd gwasanaeth craidd a nodi’r lefelau perfformiad i’w cyflawni yn y meysydd hynny. Caiff y Safonau eu defnyddio fwyfwy fel offeryn rheoli i gynorthwyo â mesur perfformiad, i gael data perfformiad cymharol, i sicrhau mwy o ymgysylltu corfforaethol â gwasanaethau llyfrgell ac i gael gwell gwerthfawrogiad o’u rôl wrth flaenoriaethu gwasanaeth corfforaethol. Mae fframweithiau’r safonau hefyd wedi creu proses ar gyfer cael sylwadau, adborth a chyngor annibynnol allanol ar berfformiad gwasanaeth llyfrgell. Fodd bynnag, nid oedd, ac nid oes, gan y safonau statws cyfreithiol, a phwysleisiodd yr *Adolygiad Arbenigol* y broblem honno a’i goblygiadau.

105. Wrth i fwy o ffyrdd amrywiol o ddarparu gwasanaeth llyfrgell ddod i’r fei, rhai ohonynt yn cynnwys sefydliadau a mudiadau nad ydynt yn rhan o’r awdurdod lleol statudol, mae Llywodraeth Cymru bellach yn wynebu galw gan awdurdodau lleol a rhanddeiliaid newydd sy’n weithgar yn y sector i ddiffinio rhwymedigaethau statudol yn fwy manwl gywir, ac i lunio canllawiau ynghylch yr hyn sy’n cael cyfrannu neu beidio at ddarpariaeth statudol llyfrgelloedd cyhoeddus. Yn benodol, gofynnir i Lywodraeth Cymru ymateb yn y canllawiau hynny i ymddangosiad llyfrgelloedd cymunedol ac Ymddiriedolaethau llyfrgell annibynnol, gan fod nifer o amrywiadau ar y rhain eisoes i’w cael yng Nghymru. Wrth i’r Llywodraeth ystyried Ymddiriedolaethau annibynnol yng Nghymru, mae’r ymchwil hwn yn argymell (*Adran 2*) y dylid ystyried bod y sefydliad a sefydlwyd eisoes mewn un awdurdod, a’r ail sefydliad a ddaw’n weithredol mewn awdurdod arall ym mis Ebrill 2015, yn addas i ddarparu a rheoli gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus oherwydd:

- nid yw’r gwasanaeth sy’n cael ei ddarparu (neu y bwriedir ei ddarparu) wedi newid fawr ddim neu mae’n debyg iawn i’r hyn a gynigid yn flaenorol gan yr awdurdod

lleol fel y corff statudol, er gwaethaf gostyngiadau pellach i'r gyllideb yn unol â chwtogi sy'n ofynnol ar yr awdurdod lleol yn sgil setliad y Llywodraeth Cymru gyda'r awdurdod hwnnw;

- mae'r trefniant yn seiliedig ar gytundeb lefel gwasanaeth sydd i raddau helaeth yn adlewyrchu lefelau'r ddarpariaeth flaenorol, er y byddai'r Ymddiriedolaethau yn falch petai Llywodraeth Cymru yn diffinio ei ofynion statudol yn fanylach;
- mae'r Ymddiriedolaethau llyfrgell annibynnol yn y ddau achos yn atebol yn y pen draw i'r awdurdod lleol am ansawdd a pherfformiad y gwasanaeth llyfrgell. Mae'r modelau'n amrywio o ran sancsiynau i'w rhoi ar waith os na fydd y perfformiadau yn bodloni'r lefelau a nodwyd yn y cytundeb lefel gwasanaeth;
- yr Ymddiriedolaethau fydd yn creu'r Ffurflen Datganiad Blynyddol sy'n ofynnol ar holl awdurdodau lleol Cymru ar hyn o bryd, ond byddai'r Ffurflen yn cael ei chyflwyno gan yr awdurdod lleol i Lywodraeth Cymru graffu arni a'i hasesu. Mae gan Lywodraeth Cymru eisoes amrywiaeth o gamau gweithredu a sancsiynau posibl i'w rhoi ar waith os na fydd y ddarpariaeth a'r perfformiadau yn foddhaol.

106. Mae *Adran 2* yr adroddiad hwn yn cyfeirio at rai o'r gwendidau a'r anawsterau posibl a allai godi yn sgil y modd y mae Ymddiriedolaethau yn bwriadu gweithredu, yn enwedig o ran yr ansicrwydd a'r peryglon ariannol posibl. Ond ar hyn o bryd byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru ystyried bod yr Ymddiriedolaethau llyfrgell annibynnol a sefydlwyd eisoes neu sydd ar fin cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau llyfrgell, yn sefydliadau addas i ddarparu gwasanaethau llyfrgell statudol. Byddai hynny'n amodol ar adolygiad blynyddol trwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a hefyd yn amodol ar awdurdodau llyfrgell yn gallu dangos a chadarnhau beth fyddai'r sefyllfa o ran cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i ddarparu gwasanaeth llyfrgell petai'r Ymddiriedolaeth yn methu.

107. Mae'r sefyllfa yn anoddach o ran y llyfrgelloedd cymunedol sydd wedi codi ac a fydd yn parhau i godi yng Nghymru. Mae'n rhaid cydnabod bod:

- ymrwymiad a diwydrwydd arweinwyr a sefydliadau cymunedol wedi sicrhau bod nifer fawr o lyfrgelloedd wedi cael eu hachub rhag eu cau. Go brin y byddai gan nifer o'r llyfrgelloedd hyn unrhyw obaith o ailagor pe byddid wedi gadael iddynt gau. Mae'r ffaith eu bod yn dal i fodoli yn cynnig y gobaith pell y gallant gael eu cynnwys eto yn y gwasanaeth statudol ar ryw adeg yn y dyfodol, os byddai amgylchiadau'n caniatáu hynny, ac os byddai hynny'n unol â dymuniadau'r gymuned;
- mae'n rhaid edmygu cyflawniadau arweinwyr a sefydliadau cymunedol wrth fynd i'r afael ag argyfwng cymunedol ac wrth orfod wynebu ychydig iawn o opsiynau ac amserlen gyfyngedig iawn. Serch hynny, maent eisoes yn sôn am y peryglon i gynaliadwyedd y model llyfrgell gymunedol yn y dyfodol, ac yn gallu dweud mai'r prif heriau fydd costau rheolaidd a chynnal ymrwymiad a diddordeb y gymuned;
- oherwydd gwaith y grwpiau cymunedol, mae adnodd cymunedol gwerthfawr sy'n cael ei drysori wedi cael ei gadw, ac mae llawer o'r llyfrgelloedd cymunedol yn

gweithredu mewn ardaloedd sydd â chryn amddifadedd ac angen cymdeithasol, ac yn gweithredu ar draws ystod ehangach o weithgareddau.

108. Serch hynny, mae'r ymchwil hwn wedi nodi nifer o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a hyfywedd rhai o drefniadau presennol llyfrgelloedd cymunedol yng Nghymru (a amlinellir ym Modelau A i C uchod). Mae'r rheiny sydd eisoes yn weithredol yn fwy na pharod i gydnabod y canlynol:

- maent yn parhau i ddibynnu'n drwm iawn ar yr awdurdod lleol am gasgliadau craidd a chyfleusterau a gwasanaethau hanfodol, ac am gyngor ac arweiniad ar ddarparu gwasanaethau. Mewn llawer o achosion, efallai na fydd defnyddwyr yn gallu sylwi ar y newidiadau sydd wedi digwydd gan fod yr awdurdod lleol i bob golwg wedi integreiddio neu barhau i'r fath raddau â'r ddarpariaeth llyfrgell gymunedol. Mae parhad (a dibyniaeth) y berthynas rhwng llyfrgelloedd cymunedol a'r awdurdod lleol yn y dyfodol yn ddieithriad yn cael ei ystyried yn hanfodol i fodolaeth y rhan fwyaf o lyfrgelloedd cymunedol. O'u rhan nhw wedyn, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn hynod hael eu cyfraniad at adnoddau llyfrgelloedd cymunedol, ac maent yn gyffredinol yn ceisio osgoi tanseilio a chystadlu am gwsmeriaid mewn ardaloedd a wasanaethir gan lyfrgelloedd cymunedol;
- mae'r goblygiadau ariannol eisoes yn feichus ac yn arbennig o anodd mewn rhai achosion. Mae rhai o'r rhain yn deillio o'r cytundebau a wnaed rhwng y partneriaid ar adeg trosglwyddo cyfrifoldebau y cytunwyd arnynt, ac mae'n ymddangos bod y rhwymedigaethau ariannol a drosglwyddwyd i grwpiau cymunedol yn arbennig o feichus. Mewn amgylchiadau o'r fath ceir ymdeimlad o rwystredigaeth eisoes bod cynhyrchu cyllid yn anodd a bod yn rhaid gwario llawer o'r arian a godwyd ar dalu am gostau refeniw rheolaidd, ac nid oes digon ar gael i'w wario ar ddatblygiadau llyfrgell a dyheadau'r gymuned. **Mewn un achos, mae'r grŵp cymunedol wedi cyfrifo bod cost darparu'r llyfrgell gymunedol eisoes yn uwch nag yr oedd o dan yr awdurdod lleol**;
- o dan rai o'r modelau a fabwysiadwyd, ond nid pob un, ofnir bod cyfraniadau'r awdurdod lleol mewn meysydd allweddol megis cynnal a chymorth i'r ddarpariaeth TGCh yn eithaf isel yn rhestr flaenoriaethau'r awdurdod, a bod terfyn amser i'r cyngor a'r arweiniad ac y bydd yn diflannu gydag amser. Bydd cyfrifoldebau'r grwpiau cymunedol yn cynyddu a mynd hyd yn oed yn fwy beichus. Serch hynny, ymddengys fod cryn ddiddordeb a chefnogaeth wleidyddol i'r berthynas barhau rhwng y gwasanaeth llyfrgell statudol a'i swyddogion a'r llyfrgelloedd cymunedol o fewn ffiniau un awdurdod, ond nid yw hyn yn wir ym mhob achos;
- er bod y broses o recriwtio gwirfoddolwyr i'r llyfrgelloedd cymunedol wedi bod yn hynod o lwyddiannus ar y dechrau, mae problemau eisoes yn codi o ran meithrin cysylltiadau cyson ac adeiladol gyda chwsmeriaid, yn y defnydd o TGCh, wrth gael gwirfoddolwyr i fynd ar hyfforddiant ac wrth greu rotas staffio effeithiol. Yn wir, mae eisoes rhywfaint o dystiolaeth fod ymrwymiad yn pylu ymysg y recriwtiaid cyntaf, ac mae llawer iawn o alwadau cymunedol yn cystadlu am wirfoddolwyr;

- **mae perfformiadau allweddol eisoes wedi dirywio - mae oriau agor, nifer y benthyciadau a nifer yr ymwelwyr wedi gostwng yn y rhan fwyaf o achosion, ac yn sylweddol iawn mewn rhai achosion**. Mae'n rhy gynnar i dderbyn bod hyn yn duedd sy'n debygol o barhau, ond mae'r yr hyn a gynigir i gwsmeriaid wedi lleihau oherwydd y gostyngiad yn yr oriau agor sy'n angenrheidiol i alluogi'r gymuned i gynnal gweithgareddau'r llyfrgell yn ddigonol;
- mae mwyfwy o bwyslais ar ddatblygu rhaglen ehangach o weithgareddau cymunedol - mewn llawer o achosion mae rhan llyfrgell y llyfrgell gymunedol bellach yn cael ei hystyried yn un agwedd yn unig ar fenter gymunedol ehangach. Mae hyn yn rhywbeth y dylai pob llyfrgell o bosibl anelu at ei gyflawni mewn dull cytbwys, ond yn achos llyfrgelloedd cymunedol, ystyrir pwyslais o'r fath fel yr unig ffordd realistig o sicrhau hyfywedd y fenter yn gyffredinol. Mewn rhai achosion mae'r cyfleoedd cyllid sydd ar gael hefyd yn tueddu i reoli neu yrru'r cyfeiriad y mae'r llyfrgelloedd cymunedol yn datblygu;
- mae llawer o'r llyfrgelloedd cymunedol gwirfoddol presennol wedi dod i'w cyfrifoldebau oherwydd anawsterau cynhenid wrth sicrhau darpariaeth addas a lefelau perfformiad derbyniol yn eu safleoedd a'u lleoliadau penodol nhw o dan awdurdod llyfrgell statudol. Ystyrid bod llawer ohonynt yn llyfrgelloedd diffygiol o dan yr awdurdod lleol, a dyna pam y cafwyd yr argymhelliad gwreiddiol i'w cau, a bydd yn her anferthol (ac afrealistig efallai) i ddisgwyl i bob grŵp gwirfoddol wneud llwyddiant o sefyllfaoedd a oedd yn methu o dan awdurdodau lleol cryf eu hadnoddau. Gallai'r broblem ddatblygu'n arbennig o ddifrifol yng nghyswllt adeiladau, ac er bod adnoddau cyfalaf yn haws weithiau i'w darganfod, mae rhwymedigaethau a heriau enfawr ynghlwm â rhai o adeiladau'r llyfrgelloedd cymunedol.

109. **O'r herwydd, ac ar hyn o bryd, mae hyfywedd a chynaladwyedd rhai o'r modelau llyfrgell gymunedol sydd wedi codi yng Nghymru eto i'w profi i raddau helaeth. Ond byddai'n afresymol ac yn rhy gynnar o lawer i ffurfio barn derfynol ar yr adeg hon. Ni ddylid gwneud unrhyw beth i beryglu neu danseilio'r mentrau o'r math hwn sydd dan arweiniad y gymuned gan eu bod yn darparu gwasanaethau gwerthfawr, hyd yn oed os ydynt yn gyfyngedig. Mae awdurdodau llyfrgell hefyd yn annhebygol o fedru dod i gasgliadau pendant i gefnogi unrhyw strategaethau sy'n dilyn neu'n mabwysiadu rhai o'r modelau llyfrgell gymunedol sy'n bodoli nawr. Byddent yn sicr yn gweithredu'n fyrbwyll, ac o bosibl yn anghyfrifol, petaent yn ystyried model dan arweiniad neu dan reolaeth y gymuned ar gyfer eu llyfrgelloedd mwy o faint yn y dyfodol. Yn syml iawn nid oes tystiolaeth i gefnogi strategaethau o'r fath nac i gyfiawnhau trosglwyddo syml ar gyfrifoldeb a fyddai'n rhesymol yn arwain unrhyw un i ddisgwyl llwyddiant awtomatig.**

110. **Nid yw llyfrgelloedd cymunedol yn sicr yn ateb i'r holl broblemau sydd wedi'u creu yn sgil y cwtogi ar wariant ar y ddarpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus, ond yn hytrach mae'n un o sawl dewis y mae angen eu gwerthuso yn ofalus.**

111. Yn ogystal, mae’n rhaid i unrhyw ystyriaeth ar y cwestiwn a ddylai’r model llyfrgell gymunedol gydweithredol fod yn rhan o’r ddarpariaeth statudol ai peidio, roi’r sylw dyledus i faterion ansawdd gwasanaeth, ac i ddulliau monitro ac asesu. Oni bai am un eithriad, trefniadau cyfyngedig iawn neu rai digon petrus sydd wedi cael eu datblygu parthed hyn gan y modelau a’r cytundebau lefel gwasanaeth a chytundebau partneriaeth neu drosglwyddo ffurfiol ac anffurfiol eraill a ddatblygwyd yng Nghymru, er bod rhaid cyfaddef i’r trefniadau hynny gael eu creu yn wyneb opsiynau cyfyngedig ac o fewn amserlenni tynn iawn ar ddiwedd 2013 ac yn ystod misoedd cyntaf 2014. Rhaid i unrhyw arweiniad a gynigir gan Lywodraeth Cymru roi sylw priodol i’r mater hwn.

112. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru yn ei chanllawiau arfaethedig roi’r ystyriaeth briodol i ganfyddiadau mwy cyffredinol yr adroddiad *A Local Inquiry: into the Public Library Service Provided by Wirral Metropolitan Borough Council*, ond ei bod hefyd yn ystyried natur yr elfennau gwell a geir yn y ddarpariaeth gwasanaeth a welir mewn cytundebau, trefniadau ac arferion sydd eisoes wedi’u gweithredu wrth greu’r llyfrgelloedd cymunedol yng Nghymru. Isod mae sylwadau yn ymwneud â’r elfennau cyfarwyddyd (yn y Saesneg gwreiddiol) o adroddiad Cilgwri/Wirral:

- O ran *Securing and keeping a wide range of free resources*, mae’r gwasanaeth a gynigir gan lyfrgelloedd cymunedol wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth hyd yn hyn, a gyda chefnogaeth yr awdurdodau llyfrgell, dylai’r agwedd graidd hon ar y ddarpariaeth barhau i fodloni gofynion statudol. Fodd bynnag, dylai unrhyw ganllawiau fynnu bod y trefniadau rhwng yr awdurdod llyfrgell a llyfrgelloedd cymunedol partner yn parhau o ran cynnig gwasanaethau am ddim, gwasanaethau TGCh yn cael eu hadnewyddu a’u cynnal i lefel foddhaol, a chwsmeriaid yn parhau i gael manteision mynediad i wasanaethau gwybodaeth a thanysgrifiadau ar y rhwydwaith, ac y dylai’r llyfrgelloedd cymunedol barhau i gael mynediad i LMS yr awdurdod, a thrwy hynny agor holl adnoddau’r awdurdod llyfrgell i’r defnyddwyr.
- O ran *Meeting the general requirements (and any special requirements) of both adults and children,* mae’r sefyllfa sydd wedi datblygu hyd yn hyn yn y llyfrgelloedd cymunedol yn hyn o beth yn llai sicr. Mae’r llyfrgelloedd yn fach ac yn gyfyng, ac ar agor am nifer fach iawn o oriau, ac nid yw’r adroddiadau am weithgareddau arbennig a gynhaliwyd yn ddiweddar yn argoeli’n dda. Soniodd rhai ymatebwyr i’r ymchwil hwn pa mor anodd oedd hi i gynnal perthynas gydag ysgolion lleol. Fodd bynnag, mae rhai llyfrgelloedd cymunedol yn rhoi mwy o bwyslais ar waith a blaenoriaethau o’r math hwn, ac mewn unrhyw ganllawiau a gyhoeddir dylid cynnwys gofyniad i sicrhau cysylltiad a mynediad at y cyngor a’r casgliadau arbenigol sydd ar gael drwy’r awdurdodau llyfrgell.
- *Free independent information and advice from staff*. Mae hwn yn faes sy’n gryn her i staff gwirfoddol mewn llawer o lyfrgelloedd cymunedol. Mae eisoes yn glir bod amharodrwydd rhai gwirfoddolwyr i ddefnyddio ffynonellau a gwasanaethau TGCh yn cyfyngu ar eu sgiliau a’u lefelau gwasanaeth yn y maes hwn, a gan fod dyletswyddau rota yn gymharol anaml, mae’n amharu ar y gallu i feithrin cyswllt cyson a chreu perthynas rhwng staff a defnyddwyr. Awgrymwyd bod angen mynd

ati i ddogfennu ceisiadau am wybodaeth neu gyngor a chyfarwyddyd, a dylid olrhain neu drosglwyddo’r rhain er mwyn sicrhau bod ymatebion bob amser yn briodol ac yn cael eu rhoi mewn da bryd. Er mwyn i’r trefniant hwnnw weithio byddai’n rhaid cael cytundeb ffurfiol rhwng yr awdurdod llyfrgell a’r llyfrgell gymunedol ynghylch y staffio, a bod ffiniau dyletswyddau wedi’u nodi’n glir yn y cytundebau ffurfiol a’u hatgyfnerthu gan hyfforddiant priodol a rheolaidd. Dangoswyd bod cael ymrwymiad o’r fath yn broblem ym mhatrymau gwaith presennol rhai gwirfoddolwyr.

- *Encouraging use and participation of the service* - mae hwn hefyd yn gryn her i lawer o lyfrgelloedd cymunedol, oni bai eu bod wedi recriwtio gwirfoddolwyr sydd â sgiliau penodol yn y maes hwn. Mae gostyngiadau yn y defnydd eisoes yn amlygu rhai o’r anawsterau hynny. Fodd bynnag, mae rhai cytundebau ffurfiol ac anffurfiol rhwng partneriaid yn dangos yr angen a’r awydd i wneud gwaith hyrwyddo, a dylai’r posibilrwydd o fedru cael mynediad at bob gwasanaeth llyfrgell mewn ardal, waeth ymhle fo tarddiad yr aelodaeth, fod yn gymorth yn hyn o beth. Yn y canllawiau dylid nodi’r maes gweithgarwch hwn i fod yn gyfrifoldeb ar yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid.

Fel y nodwyd yn gynt, llyfrgelloedd cymunedol yw’r unig gyfleuster cymunedol sy’n parhau mewn rhai ardaloedd ac aneddiadau, a gall mynediad i lyfrgelloedd neu ganolfannau mwy o faint yr awdurdod fod yn anodd weithiau i grwpiau defnyddwyr penodol oherwydd trafnidiaeth a phroblemau amddifadedd eraill weithiau. Mae mynediad a hygyrchedd daearyddol yn ystyriaethau perthnasol y dylid eu cynnwys yn y canllawiau.

113. I grynhoi, felly, dylai canllawiau Llywodraeth Cymru ar lyfrgelloedd dan reolaeth y gymuned gynnwys y canlynol:

- yr angen am gytundebau ffurfiol rhwng yr awdurdod llyfrgell statudol a’r sefydliadau partner, gydag amserlenni wedi’u nodi’n glir ar gyfer pob agwedd ar y bartneriaeth, ac yn cadarnhau mai’r awdurdod statudol sydd â’r cyfrifoldeb terfynol am ddarparu gwasanaeth llyfrgell ac am ei ansawdd ac y byddai’r awdurdod hwnnw, yn ei dro, yn cynnig cymorth parhaus i’r llyfrgell gymunedol. Os yw llyfrgelloedd dan reolaeth y gymuned i gael eu hystyried yn rhan o ddarpariaeth statudol, yna rhaid iddynt fod yn seiliedig ar bartneriaeth ffurfiol gyda’r awdurdod llyfrgell statudol. Dylai cytundebau bob amser gynnwys ymrwymiad i barhau i gynnig gwasanaethau am ddim oherwydd gellir disgwyl y bydd codi incwm o ffioedd gwasanaeth yn mynd yn demtasiwn mawr;
- dim ond yn ôl disgresiwn a chytundeb yr awdurdod llyfrgell statudol y dylid cynnwys llyfrgelloedd cymunedol neu fodelau darparu eraill ar ffurflenni a chyfrifiadau swyddogol y ddarpariaeth statudol, gan y dylid bob amser ystyried mai’r awdurdod fydd y sefydliad atebol terfynol, yn gyfrifol am ddilysu ystadegau a data perfformiad;
- rhaid ystyried yn ofalus beth yw maint y llyfrgell sydd dan ystyriaeth i’w

throsglwyddo i drefniadau partneriaeth gymunedol, ac ystyried anghenion y gymuned yn ogystal â hygyrchedd mannau eraill sy'n cynnig gwasanaeth llyfrgell. Ni ddylai darpariaeth anghynaladwy neu or-uchelgeisiol gael eu trosglwyddo i reolaeth gymunedol fel ateb cyfleus. Byddai methiant bron yn anochel o dan amgylchiadau o'r fath;

- dylid cytuno ar oriau agor llyfrgell gymunedol sydd i'w hystyried yn rhan o'r ddarpariaeth statudol, ond ni ddylai fod yn llai na 12 awr yr wythnos. Ni fyddai bod ar agor am lai o oriau yn cyfiawnhau'r lefelau buddsoddi addas mewn cyfleusterau a gwasanaethau parhaus, a gallai greu rhwystr i fynediad a defnydd. Dylid ystyried bod darparu cyfleusterau hunanwasanaeth mewn canolfannau cymunedol aml-ddefnydd ac aml-bwrpas yn angenrheidiol ac yn flaenoriaeth o ran buddsoddiad cyfalaf;
- dylid sicrhau nad yw rhwymedigaethau a chyfrifoldebau ariannol sydd wedi'u trosglwyddo i grwpiau cymunedol yn afresymol, pethau megis prydlesi trwsio llawn ar adeiladau, rhent uchel, yr holl filiau cyfleustodau ac ati. Mae'n rhaid cael cytundeb ar faterion indemnio, rhwymedigaethau statudol cyfreithiol a rhwymedigaethau eraill, a chytuno ar rannu cyfrifoldebau yn decach. Dylid rhoi sylw hefyd mewn cytundebau ffurfiol i ddiogelu data a defnydd priodol o'r holl gyfleusterau a gwasanaethau;
- dylai cytundebau, contractau neu gytundebau lefel gwasanaeth fod yn glir wrth ddiffinio a neilltuo dyletswyddau a chyfrifoldebau'r partneriaid drwy fod mor fanwl a diamwys ag y bo modd;
- dylid cytuno sut i fonitro trefniadau'r bartneriaeth, a dylid ei adolygu'n ffurfiol yn rheolaidd - bob blwyddyn am y tair blynedd cyntaf, pob tair blynedd ar ôl hynny, gan amserlennu hynny i gyd-fynd â chyfnodau fframweithiau asesu Llywodraeth Cymru neu gynlluniau strategol ar gyfer y sector llyfrgell. Efallai y bydd amgylchiadau lleol yn ei gwneud yn ofynnol addasu hyd cytundebau. Dylid nodi'n glir o'r dechrau beth fydd natur a chynnwys y gweithdrefnau monitro ac adolygu, ac unrhyw sancsiynau posibl i'w gweithredu os bydd anawsterau yn codi yn y dyfodol;
- dylai cytundebau partneriaeth ddangos hefyd pa drefniadau a fyddai'n cael eu rhoi ar waith petai unrhyw un o'r sefydliadau sy'n bartneriaid yn methu â chyflawni eu cyfrifoldebau neu'n methu â pharhau mewn partneriaeth;
- dylai'r cytundebau lefel gwasanaeth adlewyrchu a chynnwys gofynion a hawliau defnyddwyr Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus cyfredol Llywodraeth Cymru, ac unrhyw Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a all fod yn berthynol, ac ymrwymiad clir i ymdrechu i gyflawni'r Safonau hynny ac i ddarparu'r hawliau hynny. Yn amlwg byddai'n afresymol gofyn i lyfrgell gymunedol unigol gyrraedd y Safonau fel endid annibynnol, ond os yw'r elfen llyfrgell gymunedol i gael ei hystyried yn rhan o ddarpariaeth statudol, yna mae'n rhaid iddynt gyfrannu at ofynion perfformiadau gwell o ran y Safonau a gofynion eraill;
- newidiadau i drefniadau staffio yw un o'r ddau newid mawr sydd wedi digwydd ym mhatrwm darparu gwasanaethau llyfrgell trwy lyfrgelloedd cymunedol yng Nghymru. Gydag ychydig iawn o eithriadau, caiff llyfrgelloedd cymunedol eu staffio gan wirfoddolwyr di-dâl. Mewn un model yng Nghymru, er hynny, mae'r awdurdod

llyfrgell yn ymrwymedig i ddarparu rhywfaint o amser staff cyflogedig yn debyg i'r hyn a gynigiai cyn y trosglwyddiad, neu rôl gydlynu mewn awdurdod arall. Mewn achosion eraill, mae swyddi rhan-amser dros dro wedi eu creu, neu'n mynd i gael eu creu, er mwyn cynnig arweinyddiaeth i fentrau llyfrgelloedd cymunedol, ond byddai eu rolau a'u cyfrifoldebau yn ehangach na'r gwasanaeth llyfrgell ei hun. Dylai'r staffio yn y llyfrgelloedd cymunedol fod â dwy elfen iddo - naill ai staff yr awdurdod lleol yn elfen sylfaenol barhaus mewn mannau gwasanaeth *in situ*, neu mewn gwasanaethau wrth gefn (megis gwasanaethau llyfryddol, cymorth TGCh ac ati), wedi'u diffinio yn ôl nifer oriau'r wythnos neu debyg; neu fod mynediad ffurfiol a rheolaidd at gymorth, arweiniad a chyngor staff llyfrgell proffesiynol yr awdurdod lleol - a chefnogaeth gan staff gwirfoddol, gyda rôl a swyddogaethau'r ddwy elfen hyn o ran y staffio wedi'u dynodi'n glir. Dim ond pan fydd y ddwy elfen hyn i staffio ar waith y dylai gwaith llyfrgell gymunedol gael ei ystyried yn rhan o ddarpariaeth statudol, gan fod diffyg darpariaeth o'r fath yn lleihau'n fawr ar yr elfennau rheoli ansawdd ac atebolrwydd y gallai ac y dylai'r awdurdod statudol eu cynnal;

- rhaid cytuno ar drefniadau hyfforddi staff gwirfoddol a'u cael i ymrwymo iddynt;
- dylid darparu casgliadau digonol o ddeunyddiau mewn cynifer o fformatau ag y bo modd ar y dechrau, wedi'u cyfrifo ar ddarpariaeth flaenorol ac yng ngoleuni dalgylch a demograffeg y llyfrgell, ac ymrwymiad i gyfnewid a chylchdroi stoc yn rheolaidd. Yn yr un modd, dylid darparu digon o gyfleusterau a gwasanaethau TGCh, ynghyd â seilwaith rhwydwaith, gan gynnwys WiFi, a'u cynnal a'u trwsio yn ôl yr angen, a'u hadnewyddu ar adegau addas. Os nad yw llyfrgell yn gallu cynnig cyfleusterau fel y rhain, gwasanaeth cyfyngedig ac annigonol iawn y mae'n ei gynnig, a gwasanaeth sy'n annhebygol o fodloni elfennau pwysig yn anghenion a disgwyliadau'r gymuned. Mae rhai grwpiau llyfrgelloedd cymunedol yn credu bod problemau yn dod i'r amlwg yn y maes darpariaeth hwn sy'n esgor ar risg enfawr i gynaliadwyedd a hyfywedd eu llyfrgelloedd cymunedol yn y dyfodol;
- dylid cael mynediad at holl adnoddau'r awdurdod trwy aelodaeth gyffredin a gwasanaethau'r LMS, a thrwy'r gwasanaethau gwneud cais a chadw eitemau;
- rhaid sefydlu trefniadau rheolaidd i gasglu data perfformiad a'r trefniadau hynny yn gadarn ac wedi'u dilysu'n briodol er mwyn gallu cyfrifo cyfraniad y llyfrgelloedd cymunedol i waith a pherfformiad yr awdurdod partner statudol ac er mwyn gallu adrodd amdano'n gywir;
- mae datblygu canllawiau ar gyfer adeiladau llyfrgelloedd yn codi problemau. Mae'n debygol y bydd gwasanaethau llyfrgell yn cael eu cynnig a'u darparu drwy fannau llawer mwy amrywiol o ran nifer ac ehangder yn y dyfodol. Cyfeiriwyd eisoes at yr her sy'n wynebu grwpiau cymunedol yng Nghymru gan eu bod yn gorfod mynd i'r afael â gofynion gweithredol yr adeilad sydd o dan eu rheolaeth, ar ôl etifeddu adeiladau sy'n hanesyddol yn llawn problemau, ac adeiladau llawn gwendidau a rhwystrau. Gallai canllawiau a gofynion ar gyfer adeiladau llyfrgelloedd cymunedol osod gofynion afrealistig ar grwpiau cymunedol, ond mae arwyddion calonogol eisoes bod adeiladau yn cael eu haddasu a'u rheoli mewn ffordd fwy creadigol. Yn ei hanfod, felly, y cyfan y gall canllawiau eu nodi yw y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y cyfleusterau llyfrgell yn addas i'r diben, yn fwy deniadol, ac yn

hygyrch i bawb sy'n dymuno eu defnyddio.

114. Fel y nodwyd yn gynharach, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cefnogi gwaith swyddog datblygu llyfrgelloedd cymunedol mewn un awdurdod llyfrgell yng Nghymru (Model C uchod) drwy gyfrwng Grant Datblygu ac Arloesi. Mae'r awdurdod hwnnw wedi cytuno mewn egwyddor i rannu ei waith a'i brofiad dros gyfnod tair blynedd y datblygiad, a chreu Pecyn Cymorth yn ymwneud â chreu llyfrgelloedd cymunedol i bawb sydd â diddordeb. Mae pecynnau cymorth ac arweiniad a chyngor eraill, megis y rhai a grëwyd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, hefyd ar gael yn gyffredinol. Cynghorir yn gryf fod awdurdodau llyfrgell yng Nghymru sy'n ystyried cymryd y llwybr llyfrgell gymunedol ar gyfer peth o'i ddarpariaeth yn y dyfodol agos yn cyfeirio at ffynonellau o'r fath, yn bennaf er mwyn osgoi camgymeriadau'r gorffennol yn yr amgylchiadau hyn. Mae Model C uchod hefyd wedi datblygu templed cytundeb lefel gwasanaeth sy'n fanwl a chynhwysfawr iawn a hwnnw bellach yn sail i'w berthynas â'i sefydliadau partner. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r awdurdod hwnnw cyn gynted â phosibl a yw'n fodlon i'w dempled cytundeb lefel gwasanaeth partneriaeth fod ar gael i sefydliadau eraill sydd â diddordeb.

115. Mae'r ymchwil hwn yn dangos mai dim ond drwy bartneriaeth barhaus â'r awdurdod llyfrgell perthnasol y gellir sicrhau yn llawn bod gwerth a chyfraniad llyfrgelloedd cymunedol i'r ddarpariaeth gyffredinol yn un sydd o ansawdd boddhaol a chynaliadwy. Mae manteision sylweddol i'r awdurdod llyfrgell os yw'n ymrwymo i gytundeb ffurfiol gyda sefydliadau partner mewn cymunedau, gan y gall drwy hynny lwyddo i wneud unrhyw doriadau gofynnol yn y gwariant ar y gwasanaeth, ac eto ar yr un pryd gall barhau i fuddsoddi ar lefelau cymedrol iawn i ddarparu llyfrgell o ansawdd addas y gall deimlo'n hyderus ohoni, ac yn atebol amdani. Dyma'r unig fodel y gellid ei ystyried i'w gynnwys mewn darpariaeth statudol. Mae un awdurdod llyfrgell wedi llwyddo gyda'r model hwn - mae'n bosibl fod eraill mewn sefyllfa i ddatblygu, ffurfioli a mireinio'r berthynas bresennol a chael partneriaethau tebyg. Ni fydd awdurdodau eraill sy'n bwriadu dilyn y llwybr hwn yn gallu cynnwys darpariaeth o'r fath yn eu darpariaeth statudol oni bai eu bod yn creu partneriaethau ffurfiol a chynaliadwy.

116. Mae hwn i'w weld yn fodel llawer mwy cyfrifol na dim ond trosglwyddo mannau gwasanaeth problemus a gwasanaethau sydd eisoes yn dirywio i grwpiau cymunedol, ac ymddengys fel petai'n taro tant â dymuniadau llawer o aelodau etholedig yr awdurdod lleol. Byddai rhyw fath o sicrwydd hefyd y gellid cynnal elfennau craidd o ran ansawdd y gwasanaeth. Yn ogystal, ni fyddai cymunedau yn colli eu gwasanaethau yn sydyn ac yn llwyr, boed hynny yn y dyfodol agos neu os byddai'r mentrau cymunedol yn methu ar ryw adeg yn y dyfodol.

***Argymhelliad***

**IX. Dylai Cymru geisio datblygu'r model llyfrgell gymunedol dan arweiniad awdurdod lleol, yn seiliedig ar gytundeb ffurfiol a pharhaus, ond dim ond pan fydd**

**amgylchiadau'n gofyn am hynny a dim ond pan fydd bygythiad i barhad llyfrgell fach oherwydd polisïau neu reidrwydd awdurdod lleol.**